

PRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

# DATGANIAD O GYFRIFON



AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU  
31 MAWRTH 2022

**Cynnwys**

<b>Adroddiad Naratif .....</b>	<b>3</b>
<b>Datganiad o Gyfrifoldebau .....</b>	<b>22</b>
<b>Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Dyfed-Powys .....</b>	<b>23</b>
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr .....</b>	<b>27</b>
<b>Mantolen .....</b>	<b>28</b>
<b>Cronfa Bensiwn yr Heddlu .....</b>	<b>29</b>
<b>Nodiadau i'r Cyfrifon .....</b>	<b>30</b>
<b>1.    Polisiau Cyfrifyddu .....</b>	<b>30</b>
<b>2.    Addasiadau Cyfnod Blaenorol .....</b>	<b>33</b>
<b>3.    Safonau Cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto .....</b>	<b>34</b>
<b>4.    Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu .....</b>	<b>35</b>
<b>5.    Tybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif .....</b>	<b>35</b>
<b>6.    Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd .....</b>	<b>36</b>
<b>7.    Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi .....</b>	<b>36</b>
<b>8.    Offerynnau Ariannol .....</b>	<b>36</b>
<b>9.    Dyledwyr Tymor Byr .....</b>	<b>38</b>
<b>10.   Credydwyr Tymor Byr .....</b>	<b>38</b>
<b>11.   Trefniadau Cydweithredol .....</b>	<b>38</b>
<b>12.   Cydnabyddiaeth ariannol swyddogion .....</b>	<b>44</b>
<b>13.   Costau archwilio allanol .....</b>	<b>48</b>
<b>14.   Partïon cysylltiedig .....</b>	<b>48</b>
<b>15.   Prydlesi .....</b>	<b>49</b>
<b>16.   Buddion terfynu .....</b>	<b>50</b>
<b>17.   Cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig .....</b>	<b>50</b>
<b>18.   Rhwymedigaethau Amodol .....</b>	<b>58</b>
<b>19.   Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol .....</b>	<b>59</b>

## Adroddiad Naratif

### 1 Cyflwyniad

Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy gorfforaeth unigol o fewn pob ardal Heddlu, y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan bob unigolyn gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Mae'r Comisiynydd yn cael ei ethol yn gyhoeddus ac felly'n cynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona.

Etholwyd Mr Dafydd Llywelyn yn Gomisiynydd ym mis Mai 2016 ac yna cafodd ei ail-ethol yn Gomisiynydd am drydydd tymor ym mis Mai 2021.

Ymddeolodd Mr Mark Collins fel Prif Gwnstabl ym mis Mawrth 2021, ac o ystyried pa mor agos oedd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a phwysigrwyd y berthynas rhwng y ddwy gorfforaeth unigol, penderfynodd y Comisiynydd beidio â bwrw ymlaen â'r broses benodi bryd hynny a chafodd Mrs Claire Parmenter ddyrchafiad dros dro yn Brif Gwnstabl Dros Dro ym mis Chwefror 2021. Lanswyd ymgyrch recriwtio gystadleuol ym mis Mehefin 2021 a arweiniodd at benodiad llwyddiannus Dr Richard Lewis, a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Rhagfyr 2021. Dychwelodd Dr Lewis i Heddlu Dyfed-Powys ar ôl dwy flynedd fel Prif Gwnstabl Heddlu Cleveland.

Mae sefydlu'r ddwy Gorfforaeth unigol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff gynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon ei hun, gyda'r Comisiynydd yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar wahân ar gyfer y Grŵp a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff Llywodraeth Leol baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol ag arferion priodol. Nodir bod y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU (y Cod) yn cynrychioli arferion priodol.

Nod yr adroddiad naratif hwn yw darparu gwybodaeth am y materion mwyaf arwyddocaol a adroddwyd yn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Brif Gwnstabl Dyfed-Powys. Ei nod yw amlinellu'r prif amcanion, strategaethau, a'r prif risgiau y mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwebaeth ar sut y defnyddiwyd adnoddau i gyflawni canlyniadau dymunol yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

Ei nod yw rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol, y gellir ei ddefnyddio i roi cyd-destun i'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol er mwyn helpu'r darllenydd i'w deall. Bydd yr adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg Sefydliadol a'r Amgylchedd Allanol
- Llywodraethu a Pherfformiad
- Model Sefydliadol
- Perfformiad Ariannol
- Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolygon Ariannol Tymor Canolig
- Sail Paratoi a Chyflwyno

## 2 Trosolwg Sefydliadol a'r Amgylchedd Allanol

Yn ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Dyfed-Powys yw'r ardal Heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Gyda 13,842 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau.



Mae'r boblogaeth breswyl o 518,062 wedi'i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 40.9% o drigolion Dyfed-Powys o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.4%. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau wedi ymrwmo i sicrhau bod y gweithlu'n gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu fel bod aelodau'r cyhoedd, pryd bynnag y bo modd, yn cael y cyfle i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae plismona yn wasanaeth nad yw wedi'i ddatganoli o ran Llywodraeth Cymru, ond mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y pedair ardal sirol yn cael ei wneud yn gywir mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân, Byrddau Iechyd Lleol a llawer o bartneriaid eraill gan gynnwys y trydydd sector. Yn ogystal, mae Dyfed-Powys hefyd yn cydweithio ar sail Cymru gyfan i gyflawni cyfrifoldebau plismona sy'n cwmpasu nifer o wasanaethau pwysig megis Ymateb Arfog ac ymateb i fygythiad Troseddau Cyfundrefnol a Therfysgaeth.

Cafwyd llawer o sylwebaeth annibynnol dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chyllid yr Heddlu, cynaliadwyedd, gwytnwch a beichiau ariannol cynyddol a waethygydd gan nifer o setliadau grant un flwyddyn sydd wedi rhwystro cynllunio tymor canolig effeithiol yn sylweddol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae pwysau'n parhau i godi o natur newidiol troseddau ac yn fwy diweddar yr amrywiaeth gymhleth o ganlyniadau ariannol ac economaidd sy'n deillio o bandemig COVID-19 a waethygydd gan bwysau chwyddiant sylweddol sy'n dod i'r amlwg o faterion y byd ac amodau'r farchnad.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23 yn manylu ymhellach ar yr amrywiaeth o ystyriaethau ariannol ac yn gosod y rhagolygon ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 6 o'r adroddiad naratif hwn:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11153/dpp172-2223-mtfp-and-precept-report-for-panel-final-20122-c.docx>

Yn erbyn cefndir ariannol heriol, mae'r galw'n parhau i dyfu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae'r Heddlu wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau a gofnodwyd, gyda digwyddiadau'n ymwneud â salwch meddwl ac ymholiadau mwy cymhleth i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a seiberdroseddau. Mae gwaith yn parhau i wella cywirdeb data troseddau ac mae ffocws yr Heddlu ar fregusrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd cadarnhaol mewn adrodd a chofnodi troseddau. Mae'r gwasanaeth yn

parhau i ddatblygu'n gyflym i alluogi ei ymateb i risgiau newydd, bygythiadau newydd, a newidiadau mewn technoleg, y mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod y blaenoriaethau strategol ar gyfer yr Heddlu trwy gynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddau, gan sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

Wedi ymgynghori helaeth, cyhoeddodd y Comisiynydd ei Gynllun Heddlu a Throseddau newydd ym mis Mawrth 2022 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith perfformiad sylfaenol. Mae'r cynllun yn nodi tair blaenoriaeth a phedwar gwerth a fydd yn sail i gyflawni:

Blaenoriaethau	Gwerthoedd
Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi	Cydweithio
Mae niwed yn cael ei atal	Bod yn atebol
Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol	Bod yn gynaliadwy
	Ymgysylltu'n eang

Mae'n ofynnol yn statudol i'r Prif Gwnstabl gefnogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Cynhaliodd y Prif Gwnstabl '100 Diwrnod o Sgwrs' gyda'r gweithlu, partneriaid a'r cyhoedd cyn cytuno ar flaenoriaethau sefydliadol ategol ar gyfer yr Heddlu ym mis Ebrill 2022. Mae ymrwymiad i'r rhain barhau ar waith am yr un hyd â'r Cynllun Heddlu a Throseddau sy'n golygu bod cyfle gwirioneddol i weithio'n wahanol i gyflawni mwy, ac ar yr un pryd sicrhau cysondeb ac eglurder pwrpas.

Blaenoriaethau
Gwneud ardal Dyfed-Powys yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau
Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu
Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, ac erlid troseddau yn ddi-baid

Bydd cynlluniau cyflawni manwl yn cael eu datblygu yn sail i'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Bydd y cynlluniau hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amgylchedd gweithredol ac ariannol heriol, yr angen am fuddsoddiad parhaus i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy a'r angen i baru adnoddau ac asedau i fodloni gofynion a deddfwriaeth sy'n datblygu.

Er gwaethaf cyfyngiadau cenedlaethol a lleol parhaus yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, fe wnaeth plismona addasu'n gyflym i orfodi deddfwriaeth newidiol y DU a Chymru ac ar yr un pryd parhau i ddarparu gwasanaethau ac amddiffyn ei weithlu.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn brysur gyda swyddogion a staff yr Heddlu yn delio â nifer o ddigwyddiadau plismona proffil uchel a gweithrediadau a digwyddiadau arwyddocaol wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio:

- Galw gweithredol sylweddol yn ystod misoedd yr haf o ganlyniad i fwy o ymwelwyr ag ardal yr heddlu;
- Mae Bywydau Du o Bwys a phrotestiadau eraill;
- Llwyddiant wrth frwydro yn erbyn cyffuriau rheoledig yn ystod pandemig COVID-19;
- Cyfyngiadau pandemig COVID-19 – gorfodi;
- Cynnydd mewn adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Darparu adnoddau cyd-gymorth ar gyfer Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ac Uwchgynhadledd G7.

### 3 Llywodraethu a Pherfformiad

#### Llywodraethu

Mae'r trefniadau llywodraethu y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu yn unol â nhw yn gymhleth. Mae'r rhain wedi'u hadolygu'n feirniadol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau i gael eu cryfhau a'u symleiddio er mwyn sicrhau rheolaeth, goruchwyliaeth a chraffu sefydliadol effeithiol.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff hwn ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Mae'r Comisiynydd yn statudol gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod cyllideb flynyddol yr Heddlu (gan gynnwys lefel y praesept) a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl wedi'i diogelu mewn deddfwriaeth. Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfeirio a darparu gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr Heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol yn ôl y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwaith plismona effeithlon ac effeithiol, rheoli adnoddau a gwariant yr Heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei swydd o dan y Goron ac yn gyfrifol am gynnal Heddwch y Frenhines.

Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar wahân eleni, ac mae hwn yn rhoi mwy o fanylion am yr amgylchedd rheolaeth fewnol a gwerthusiad o drefniadau llywodraethu yn erbyn y saith egwyddor ar gyfer cyflawni llywodraethu da.

#### Perfformiad

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gefnogi'r Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae ei gyflwyniad gweithredol, ei fframweithiau monitro perfformiad a'i benderfyniadau ariannu yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y cynllun yn chwarterol yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona; cyfarfod cyhoeddus lle mae'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl a'i uwch dîm i gyfrif. Gellir cael yr Adroddiad Perfformiad diweddaraf ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod diwethaf yn:

<https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-thryloywder/bwrdd-atebolrwydd-yr-heddlu/>

Mae nifer o fetrigau cyfaint ac allbwn sy'n cael eu monitro fel rhan o'r trefniadau sicrwydd a llywodraethu. Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu dangosyddion cynnydd a pherfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddau. Mae'r holl berfformiad yn cael ei fonitro a'i graffu o fewn y strwythur Llywodraethu gyda ffocws allweddol ar welliant.


Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i ateb galwadau 999 o fewn y targed 10 eiliad a osodwyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Galwadau Brys Cyhoeddus. Cyflymder cyfartalog ateb ar gyfer y cyfnod oedd 3.2 eiliad gyda 90% yn cael eu hateb mewn llai na 9 eiliad.

Mae perfformiad 101 o ran cyflymder cyfartalog ateb a rhoi'r gorau i alwad wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser. Mae'r galw drwy Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu hefyd wedi parhau'n gyson a chafwyd cynnydd nodedig mewn galwadau am wasanaeth yn ystod mis Mawrth a mis Awst 2021. Roedd lefelau'r galw i'r Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn amrywio gyda gosod a llacio cyfyngiadau.

Mae amseroedd ymateb i alwadau am wasanaeth, yn unol â'r flaenoriaeth a roddwyd iddynt, yn dda. Mae rhai heriau daearyddol yn cael eu hwynebu mewn manau megis ardaloedd Llanbedr Pont Steffan a Sir Faesyfed ond, o gymharu, mae'r amseroedd ymateb yn llawer gwell nag mewn Heddluoedd eraill.

Mae'r Heddlu yn fwy hygyrch nag erioed o'r blaen gan alluogi'r gymuned a phartneriaid i gysylltu trwy sianeli digidol lluosog gan gynnwys gwasanaethau gwe a chyfryngau cymdeithasol. Bydd uwchraddio technoleg a ddisgwylir yn gynnar yn 2023 yn ehangu ymhellach y sianeli cyswllt sydd ar gael i gynnwys sgwrsio byw a gwasanaethau integredig eraill ar gyfryngau cymdeithasol.

**Cyfanswm nifer y troseddau a gofnodwyd dros amser\***



\*Mae data troseddau yn ddeinamig a gall ffigurau hanesyddol newid am nifer o resymau gan gynnwys newidiadau i arferion cofnodi troseddau.

Mae'r siart uchod yn dangos cyfanswm y troseddau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y patrwm o droseddau yn cael ei ddylanwadu i raddau helaeth gan gyfyngiadau lleol a chenedlaethol fel yr oedd y mathau o droseddau a adroddwyd. Ar gyfer 2021/22 roedd y cynnydd mwyaf mewn troseddau a gofnodwyd yn droseddau yn ymwneud ag ymddygiad, megis Trefn Gyhoeddus, Trais yn Erbyn yr Unigolyn a Stelcio ac Aflonyddu, er y dylid nodi bod y cynnydd hefyd o ganlyniad i arferion cofnodi gwell.

Mae angen elfen o ymchwiliadau digidol/seiber ar gyfran sylweddol o'r troseddau a gofnodir bellach. Mae nifer cynyddol a chymhlethdod y dyfeisiau a'r cynnydd parhaus ym maint y data yn her sylweddol i'r Uned Fforensig Ddigidol. Fodd bynnag, mae datblygu model porthgadw cadarn i sicrhau bod y gwaith o archwilio dyfeisiau'n cael ei flaenoriaethu a'i gyflwyno fesul cam, wedi bod yn allweddol wrth reoli'r llwyth gwaith o fewn yr uned. Yn ogystal, mae cyflwyno labordy delweddu, ystafell wyllo ar gyfer swyddogion, a strategaethau fforensig cadarn i ymgorffori meddalwedd brysbennu i negyddu'r angen am archwilio nifer fawr o ddyfeisiadau yn fanwl ar gyfer pob achos wedi galluogi'r uned i fodloni'r galw sylweddol yn yr ardal hon.

Mae Rheoli Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ac fe'i hadlewyrchir yn Strategaeth Reoli'r Heddlu, y Cynllun Heddlu a Throseddau a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabiailid. Mae Asesiad Strategol blynyddol sy'n rhoi trosolwg o'r materion presennol a thymor canolog sy'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar Heddlu Dyfed-Powys a'i ymateb i Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol yn cael ei adolygu bob chwe mis ac mae'n ymwybodol o Asesiad Strategol Cenedlaethol yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol ac Asesiad Strategol Rhanbarthol yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol.

Ers 2018/19, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld nifer y Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol sy'n cael eu rheoli ar unrhyw adeg benodol yn sefydlogi rhwng 15 ac 20 y flwyddyn, mae hyn yn dal yn gywir ar gyfer 2021/22 a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i fod yn gymharol sefydlog. Yn seiliedig ar y duedd dros y tair blynedd diwethaf, rhagwelir y bydd y ganran gymhareb rhwng Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol Dosbarth A cysylltiedig â chyffuriau a meysydd Strategaeth Rheoli eraill yn newid wrth i'r Heddlu barhau i nodi ac

asesu bygythiadau Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol nad ydynt yn gysylltiedig â chyffuriau yn effeithiol. Ar gyfer 2021/22, roedd 26 allan o gyfanswm o 33 Grŵp Troseddau Cyfundrefnol / Gwendidau yn gysylltiedig â throseddau Dosbarth A, sef 79% o'r holl Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol wedi'u mapio gyda'r gweddill yn cael eu mapio ar draws Troseddau Caffael Cyfundrefnol a Gwyngalchu Arian / Troseddau Twyll.

Yn ystod 2021/22, mae cyfraddau colffarnu yn Nyfed-Powys ar gyfer llys y Goron (2 allan o 4 chwarter) a'r llys Ynadon (3 allan o 4 chwarter) wedi parhau'n gyson uwch na Heddluoedd eraill yng Nghymru. Er bod y cyfraddau colffarnu wedi amrywio'n chwarterol, mae'r tueddiadau'n parhau'n sefydlog yn ystod dau fis olaf 2021/22 ar 81.5% i 85.3% yn Llys y Goron a 91.2% i 90.6% yn y Llys Ynadon. Oherwydd y nifer isel o achosion, mae'r ffigurau'n agored i amrywiadau. (Sylwer bod yr uchod yn seiliedig ar ddata Cyfarfodydd Gwella Gweithredol ar y Cyd, lle mae'r gymhariaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Heddluoedd eraill Cymru yn hytrach na data Cenedlaethol.)

O'r 42,150 o droseddau a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn 2021/22 mae cyfanswm o 2,257 yn dal i fod yn destun ymchwiliad parhaus. Mae hyn yn cyfateb i 5.3% o'r troseddau a gofnodwyd. Yn 2020/21, fe gymerodd 44 diwrnod ar gyfartaledd i drosedd gael canlyniad ond mae 154 o droseddau yn dal i gael eu dosbarthu fel ymchwiliadau parhaus. Cyfartaledd y diwrnodau yn 2021/22 ar gyfer gweithredu canlyniad i drosedd yw 32 diwrnod, sydd 12 diwrnod yn llai na'r flwyddyn flaenorol sy'n awgrymu yn gyffredinol bod amseroldeb ymchwiliadau wedi gwella.

### **Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF)**

Derbyniodd yr Heddlu wahoddiad gan AHGTAEF i fod yn Heddlu peilot ar gyfer eu fframwaith Asesiad Parhaus Heddlu, Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb (PEEL) newydd, gyda'r arolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2021. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn haf 2022 a bydd yn darparu asesiad o berfformiad a graddau'r Heddlu yn erbyn meysydd cwestiwn craidd y fframwaith.

Cydnabu AHGTAEF y cynnydd sylweddol y mae'r Heddlu yn ei wneud mewn perthynas ag ailstrwythuro gwasanaethau i ddarparu cymorth arbenigol i gymunedau. Mae hefyd yn galonogol clywed canmoliaeth am waith staff yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, sy'n nodi pobl sy'n agored i niwed yn gyson. Mae AHGTAEF wedi darparu adborth cadarnhaol pellach i'r cynnydd a wnaed o ran y cyfeiriad strategol a'r model newydd ar gyfer Plismona yn y Gymdogaeth. Dyfarnwyd gradd dda i'r Heddlu am drin y cyhoedd yn deg, sy'n dyst i'r gwaith a wneir yn ddyddiol i gefnogi a diogelu cymunedau Dyfed-Powys. Mae rhaglen o newid eisoes ar waith a fydd yn cyflwyno newid sylweddol o ran prosesau a diwylliant gydag elfennau'n ceisio gwella gallu'r Heddlu i reoli galw, cefnogi dioddefwyr, gwella amseroldeb ac ansawdd ymchwiliadau a goruchwylio troseddau.

Fel rhan o'r arolygiad a gynhaliwyd yn 2021, cyhoeddodd AHGTAEF achos pryder mewn perthynas â chywirdeb data trosedd. Sefydlodd y Prif Gwnstabl Grŵp Aur i adolygu'r materion yn feirniadol a goruchwylio datblygiad a gweithrediad cynllun gweithredu priodol. Gwnaed gwelliannau sylweddol a rhyddhaodd AHGTAEF yr achos pryder yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022.

### **Datganiad Rheoli'r Heddlu**

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl y Datganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf i AHGTAEF ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Datganiad Rheoli'r Heddlu yn hunanasesiad o'r canlynol:

- Y galw y mae'r Heddlu yn disgwyl ei wynebu yn y pedair blynedd nesaf;
- Sut y bydd yr Heddlu yn newid ac yn gwella cyflwr, capasiti, gallu, defnyddioldeb, perfformiad a sicrwydd cyflenwad ei weithlu ac asedau eraill i ymdopi â'r galw hwnnw;



- Sut y bydd yr Heddlu yn gwella i sicrhau bod y bwch rhwng y galw yn y dyfodol a chapasiti yn y dyfodol mor fach ag y gall fod;
- Yr arian y mae'r Heddlu yn disgwyl ei gael i wneud yr uchod i gyd.

Diwygiodd yr Heddlu ei dull o gynhyrchu Datganiad Rheoli'r Heddlu i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn flaenorol gan AHGTAEF mewn perthynas â gwella'r ffordd y mae'n cynllunio. Mae'r dull newydd o ymdrin â Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi dod â chydgyssylltu canolog ac mae wedi'i alinio'n agosach â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog a chynllunio strategol.

Nododd Datganiad Rheoli'r Heddlu 2021 nifer o themâu a blaenoriaethau trawsbynciol:

- Capasiti Dadansoddol;
- Uniondeb / Archwilio Data Troseddau;
- Adferiad Pandemig COVID-19;
- Galw a Chapasiti;
- Prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd – Adolygiad o droseddau, ymchwiliadau a chanlyniadau ar lefel yr Heddlu;
- Asedau Nad ydynt yn Asedau Dynol – diffyg gwytnwch;
- Darpariaeth Patholeg Fforensig;
- Gallu Hyfforddi;
- Cynllunio Gweithlu – recriwtio, cadw, gwydnwch ac ymddeoliadau.

#### 4 Y Model Sefydliadol

Mae'r Heddlu wedi'i drefnu ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan Dîm Prif Swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Dangosir prif gyfrifoldebau'r tair swydd sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y tabl isod:

Dirprwy Brif Gwnstabl	Prif Gwnstabl Cynorthwyol	Cyfarwyddwr Cyllid
Gwasanaethau Pobl	Plismona Lleol	Cyllid Corfforaethol
Adran Gyfreithiol	Ymchwiliadau	Fflyd
Gwasanaethau Corfforaethol / Perfformiad	Ymateb Arbenigol	Caffael
Rheoli Gwybodaeth	Canolfan Gyswllt yr Heddlu	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Cydweithio ac Effeithlonrwydd	Cefnogaeth Wyddonol	Uned Cymorth Buses
Cyfathrebu Corfforaethol	Cyfiawnder Troseddol	Ystadau (o 1.4.22)
Safonau Proffesiynol	Partneriaethau	
Gweithrediadau Mawr		
Iechyd a Diogelwch		

Mae'r Heddlu wedi parhau i ail-lunio i ateb y galw ond, fodd bynnag, cydnabyddir bod y dirwedd plismona yn newid drwy'r amser ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddau newydd a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu diweddaraf.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, roedd gan y Comisiynydd a'r Heddlu sefydliad wedi'i gyllidebu o 1,242 o Swyddogion yr Heddlu, 148 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCHau) ac 821 o Staff yr Heddlu. Dangosir dadansoddiad o ddisbarthiad y staffio yn y tabl isod:

Swyddi a Gyllidebwyd 2021/22	Swyddogion yr Heddlu FTE	SCCHau FTE	Staff yr Heddlu FTE	Cyfanswm FTE
Plismona Lleol	610	148	30	788
Ymchwiliadau	339	0	172	511
Cymorth Gweithredol (gan gynnwys Delio â Galwadau)	175	0	131	306
Cyfiawnder Troseddol	1	0	57	58
Cefnogaeth Wyddonol a Gwaith Fforensig Digidol	8	0	42	50
Safonau Proffesiynol	8	0	18	26
Eraill gan gynnwys Cymorth Busnes	36	0	301	337
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (gan gynnwys Ystadau)	0	0	39	39
Meysydd Secondiad ac a Ariennir	65	0	31	96
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,242</b>	<b>148</b>	<b>821</b>	<b>2,211</b>

Mae'r ymgyrchoedd recriwtio wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn i sicrhau'r lefelau gorau posibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol ac i ganiatáu dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Rhoddwyd trefniadau hyfforddi newydd ar waith o fis Mawrth 2019 o dan Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu sy'n parhau i weld nifer y cwnstabiaild myfyrwyr yn cael eu derbyn bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau craidd o'u hyfforddiant.

Yn ogystal â recriwtio i gymryd lle ymddeoliadau arferol a'r rhai sy'n gadael, mae'r Heddlu hefyd yn cynyddu'r sefydliad yn unol â Rhaglen Uplift Swyddogion Heddlu'r Swyddfa Gartref i recriwtio 20,000 o swyddogion ychwanegol erbyn mis Mawrth 2023. Mae targedau'r Llywodraeth wedi gweld cynnydd o 42 yn 2020/21, 42 arall yn 2021/22 a dyraniad terfynol o 57 ar gyfer 2022/23 a bydd nifer y Swyddogion Heddlu cyfwerth ag amser llawn yn cynyddu i 1,299 erbyn 31 Mawrth 2023. Amlinellir y goblygiadau ariannol ymhellach yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae gan y Comisiynydd Swyddfa sy'n ei gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid, mae gan y Comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i gynghori ar faterion yn ymwneud â chyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu, comisiynu a phartneriaethau. Roedd gan y Comisiynydd sefydliad wedi'i gyllidebu o 38.6 swydd cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2021/22 a oedd yn cynnwys 20 o fewn y swyddogaeth Ystadau. Fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o faterion yn ymwneud ag Ystadau, trosglwyddodd y Comisiynydd y swyddogaeth yn ôl i'r Prif Gwnstabl o 1 Ebrill 2022.

## 5 Perfformiad Ariannol

Mae Datganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl yn dangos perfformiad ariannol yr Heddlu ac mae wedi'i baratoi ar sail arferion cyfrifyddu priodol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan nad yw'r rhain yn cynnwys rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan statud.

Mae cost y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos bod £156.1 miliwn (2020/21: £144.1 miliwn) wedi'i wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i'r cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys yn 2021/22. Mae'r Datganiad yn rhoi dadansoddiad ar draws y prif gydrannau cost. Er enghraifft, gwariwyd yr elfen fwyaf ar Gyflog Swyddogion Heddlu a oedd yn cyfrif am £69.7 miliwn (2020/21: £68.4 miliwn) o'r cyfanswm yn 2021/22.

Mae'r Fantolen yn rhoi ciplun o asedau a rhwymedigaethau'r Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2022.

Dominyddir y Fantolen gan y rhwymedigaeth hirdymor o £1,701 miliwn (£1,676 miliwn yn flaenorol) sy'n bodoli mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu. Mae hyn yn cynrychioli'r swm y byddai angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen i dalu am daliadau pensiynau yn y dyfodol ar gyfer yr holl swyddogion a staff presennol ac wedi ymddeol. Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo'n annibynnol ar sail actiwaraid ac mae'n ystyried lefelau cyflog yn y dyfodol, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau ac ati. Mae hyn wedi aros yn weddol sefydlog rhwng y ddwy flynedd er bod cyfrifiad actiwaraid llawn wedi'i wneud yn y flwyddyn gyfredol.

Yr eitem fwyaf nesaf ar y Fantolen yw'r £15.8 miliwn (2020/21; £12.4 miliwn) o gredydwr tymor byr yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan y Prif Gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi cynyddu £3.4 miliwn ers mis Mawrth 2021. Mae rhagor o fanylion a dadansoddiadau mewn perthynas ag eitemau'r Fantolen wedi'u cynnwys yn y nodiadau i'r cyfrifon.

#### Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiad Cyllidebol 2021/22

Gosododd y Comisiynydd gyllideb o £119.8 miliwn fel Cyllideb Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a oedd yn ymgorffori defnydd o gronfeydd wrth gefn o £1.6 miliwn yn ogystal ag arbedion ariannol o £1.6 miliwn a dynnwyd o gyllidebau sylfaenol. Roedd yr arbedion ariannol hyn i'w cyflawni ar draws nifer o fentrau gan gynnwys strwythurau gweithlu, trefniadau cydweithredol, datblygiadau TGCh, cynhyrchu incwm a gostyngiadau sylweddol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau a gyflawnir trwy gaffael a mentrau lleihau costau eraill. Roedd y gyllideb yn tybio y byddai cyflogau swyddogion a staff y sector cyhoeddus yn parhau i gael eu rhewi, ac y byddai cynnydd o 2.5% mewn chwyddiant cyffredinol ar gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau.

O'r gyllideb gyfan, pennwyd £113.6 miliwn fel y gyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl. Roedd hyn yn cymryd i ystyriaeth nifer o grantiau penodol gan gynnwys £1.3 miliwn a dalwyd gan y Swyddfa Gartref i wrthbwysu'n rhannol gost y cynnydd blaenorol yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwr pensiwn Swyddogion yr Heddlu ac £1.2 miliwn i gefnogi cyfran gyntaf Rhaglen Uplift y Swyddfa Gartref.

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2021-22 ac yn cymharu hwn â'r gyllideb wreiddiol a'r gyllideb ddiwygiedig. Mae'r gyllideb ddiwygiedig yn adlewyrchu'r cyllidebau ychwanegol a'r symudiadau wrth gefn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Cymeradwyir trosglwyddiadau ariannol yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Adroddwyd ar y newidiadau i'r gyllideb y cyfeirir atynt isod yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Plismona a chyfarfodydd cyhoeddus chwarterol Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn.

Roedd y gyllideb wreiddiol yn gofyn am ddefnyddio £1.6 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn gyda'r bwriad o liniaru effaith pwysau costau untro sy'n deillio o weithrediadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r gwersyll ceiswyr lloches ym Mhenalun a'r ansicrwydd parhaus sy'n gysylltiedig â pandemig COVID-19. Mae plismona'n parhau i fod yn amgylchedd deinamig ac ar ôl i'r gyllideb gychwynnol gael ei gosod daeth yn amlwg wedyn y byddai gweithrediadau sy'n gysylltiedig â gwersyll Penalun yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, gan leihau'r angen i dynnu ar gronfeydd wrth gefn o £0.7 miliwn. Ymhellach, dyrannwyd cyllid ychwanegol i'r heddlu, gan gynnwys £0.4 miliwn gan y Swyddfa Gartref i gwrdd â phwysau costau pandemig parhaus, a £0.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gydnabod codiadau costau chwyddiant Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Galluogodd y datblygiadau hyn, ynghyd â barn newidiol o

effaith y pandemig, y Comisiynydd i leihau'r cyfraniad gofynnol o'r cronfeydd wrth gefn o £1.4 miliwn i £0.2 miliwn. Addaswyd y gyllideb sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl i ystyried y datblygiadau hyn ar 13 Ebrill 2021 ac adlewyrchir hyn yn y gyllideb ddiwygiedig a ddangosir yn y tabl canlynol:

Datganiad Amrywiad	Cyllideb Wreiddiol	Cyllideb Ddiwygiedig	Gwirioneddol	Amrywiant (Cadarnhaol ar gyfer arbed)
Deiliad Cyllideb	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
<b>Prif Gwnstabl</b>				
Cyflogau a Lwfansau'r Heddlu	67.9	67.9	67.4	0.5
Goramser Swyddogion yr Heddlu	2.4	1.6	2.1	(0.5)
Gwyliau'r Banc	0.7	0.7	1.0	(0.3)
Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu	33.2	33.2	32.4	0.8
Goramser Staff yr Heddlu	0.2	0.2	0.2	0.0
Costau Pensiwn	1.7	1.7	1.6	0.1
Recriwtio a Hyfforddiant	1.9	1.9	1.6	0.3
Costau Eraill Nad ydynt yn Ymwneud â Chyflogau	10.5	10.3	10.5	(0.2)
Dadansoddi Ffonau a Gwaith Fforensig	2.3	2.4	2.3	0.1
Taliadau Cydweithio	3.5	3.5	3.2	0.3
Grantiau	(8.4)	(9.1)	(9.1)	0.0
Incwm	(2.8)	(2.8)	(3.6)	0.8
Ariannu Cyfalaf	2.3	2.5	2.6	(0.1)
Ad-daliadau	(0.2)	(0.2)	(0.1)	(0.1)
<b>Cyfanswm y Gyllideb – Heddlu</b>	<b>115.2</b>	<b>113.8</b>	<b>112.1</b>	<b>1.7</b>
Cyfraniad i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn – Prif Gwnstabl	(1.6)	(0.2)	1.5	(1.7)
<b>Gwariant Net ar ôl Trosglwyddo o Refeniw i Gronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>113.6</b>	<b>113.6</b>	<b>113.6</b>	<b>0.0</b>
<b>Cyfrifon Dal a chyfrifon hunanfantoli</b>				
Rhaglen Ailhyfforddi Gyrwyr	0.0	0.0	(0.3)	0.3
Trosglwyddo i/(o) Gronfeydd Wrth Gefn – Ailhyfforddi Gyrwyr	0.0	0.0	0.3	(0.3)
<b>Cyfanswm Cyfrifon Dal</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>	<b>0.0</b>

Yn 2021/22 gwelwyd lefelau parhaus o alw gweithredol digynsail a oedd, ynghyd â phwysau ariannol, yn gofyn am reolaeth ofalus a doeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Datganiad Amrywiad uchod yn dangos bod costau'r Prif Gwnstabl £1.7 miliwn yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn. Rhoddir esboniad isod o'r prif resymau dros yr amrywiannau perthnasol:

- i. Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu: Roedd tanwariant o £0.5 miliwn yn y gyllideb hon ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd ymddeoliad cynharach, seibiannau gyrfa, diswyddiadau a throsglwyddiadau swyddogion heddlu yn gadael yn uwch na'r disgwyl. Roedd hyn yn golygu bod angen recriwtio trosglwyddeion yn hwyr yn y flwyddyn ariannol er mwyn cyrraedd targedau Uplift y Swyddfa Gartref. Roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn is na'r gyllideb, fodd bynnag, gwrthbwyssyd hyn i raddau helaeth gan lwfansau ychwanegol a thaliadau Yswiriant Gwladol a gododd o ganlyniad i oramser a dalwyd i'r nifer sylweddol o swyddogion a oedd yn darparu cefnogaeth cydgymorth ar gyfer plismona'r Gynhadledd Hinsawdd (COP26) ac Uwchgynhadledd G7.

- ii. Goramser Swyddogion yr Heddlu: Roedd goramser Swyddogion yr Heddlu £0.5 miliwn yn fwy na'r gyllideb gyda thaliadau a wnaed i swyddogion sy'n cefnogi digwyddiadau cydgymorth yn cyfrif am tua £0.3 miliwn o hyn, er bod y gwariant hwn wedi'i wrthbwysu gan incwm. Yn ogystal, roedd £0.1 miliwn o oramser a weithiwyd i'w briodoli i weithgarwch ychwanegol yn gysylltiedig â'r Pandemig. Cafwyd grant ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i gyfateb i'r gwariant hwn. Parhaodd y Grŵp Rheoli Adnoddau i graffu a rheoli gwariant goramser yn sylweddol. Roedd goramser mwy arferol tua £0.1 miliwn yn fwy na'r gyllideb yn ystod y flwyddyn sy'n adlewyrchu gweithgarwch sylweddol mewn perthynas â galw'r haf, gweithrediadau rhagweithiol, i ymdrin â phrinder staff a chynnydd mewn ymholiadau troseddau yn fwy cyffredinol.
- iii. Taliadau Gwyliau Banc Swyddogion yr Heddlu: Cafwyd gorwariant o £0.3 miliwn ar y gyllideb hon yn ystod y flwyddyn. Gyda dyddiadau Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan i gyd yn disgyn ar benwythnosau yn 2021/22, roedd taliadau ychwanegol hefyd yn ddyledus o dan Reoliadau'r Heddlu i swyddogion a oedd yn gweithio'r tair Gŵyl Gyhoeddus ychwanegol a neilltuwyd ar ddyddiau'r wythnos yn lle'r dyddiau hyn. Nid chafodd hyn ei adlewyrchu yn y gyllideb wreiddiol na'r gyllideb ddiwygiedig ond cydnabuwyd bod llithriad mewn manau eraill yn y gyllideb yn ddigon i amsugno'r gorwariant hwn.
- iv. Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu: Roedd tanwariant o £0.8 miliwn yn y gyllideb hon yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i oedi wrth benodi staff yr heddlu wrth i swyddi gwag godi. Mae'r Grŵp Adolygu Sefydliad Strategol yn cyfarfod yn wythnosol i ystyried yr holl geisiadau am swyddi gwag cyn hysbysebu. Mae craffu a her sylweddol wedi'u cymhwysu gyda llawer o leoedd gwag yn cael eu cadw'n agored er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen i fantoli cyllidebau yn 2021/22 a blwyddyn ariannol 2022/23. Effeithiodd hyn yn bennaf ar swyddi yn y swyddfa gydag effeithiau lles a gweithredol yn cael eu hadolygu'n barhaus.
- v. Goramser Staff yr Heddlu: Roedd y costau hyn yn unol â'r gyllideb i raddau helaeth.
- vi. Costau Pensiwn Swyddogion yr Heddlu: Roedd taliadau pensiwn o £0.1 miliwn yn llai na'r gyllideb o ganlyniad i benderfyniadau ynghylch sefydlogrwydd ac anafiadau a gymerwyd ar sail feddygol. Roedd gorwariant bychan ar daliadau cylchol i bensiynwyr, fodd bynnag gwrthbwyswyd hyn gan danwariant mewn perthynas â thaliadau cyfalaf y mae'n ofynnol eu talu i'r gronfa pensiwn ar gyfer ymddeoliadau newydd ar sail afiechyd.
- vii. Recriwtio a Hyfforddiant: Roedd costau recriwtio a hyfforddi £0.3 miliwn yn llai na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys treiglo hyfforddiant ychwanegol o £0.4 miliwn o'r flwyddyn ariannol flaenorol i gydnabod yr ôl-groniadau a gododd o ganlyniad i'r Pandemig. Mae anawsterau o ran sicrhau lleoedd hyfforddi unwaith eto wedi effeithio ar y gyllideb hon a chafodd swm o £0.4 miliwn ei gario drosodd i 2022/23. Mae'r Heddlu wedi gorfod amsugno a chronni costau ychwanegol o £0.2 miliwn mewn costau cyfalaf pensiynau a thaliadau sancsiwn cynllun statudol hanesyddol sy'n cael eu gwrthbwysu gan arbedion o £0.1 miliwn yn erbyn cyllidebau costau recriwtio ac adleoli yn ystod y flwyddyn.
- viii. Costau Eraill Nad ydynt yn Ymwneud â Chyflogau: Cofnodir gorwariant o £0.2 miliwn yn erbyn y gyllideb hon. Mae gorwariant o £1 miliwn yn cael ei gofnodi yn erbyn y penawdau costau cyfreithiol a chostau erlyn sy'n adlewyrchu cymysgedd o ffioedd cyfreithiol a dalwyd a darpariaethau a neilltuwyd ar gyfer hawliadau hysbys yn codi yn y flwyddyn ac achos cyfreithiol y cyfeirir ato yn Nodyn 7 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd'. Mae'r gorwariant hwn wedi'i wrthbwysu gan nifer o achosion o danwario, y gellir eu priodoli'n

bennaf i gyllidebau a neilltuwyd i dalu costau cylchol y System Rheoli Cofnodion newydd (£0.1 miliwn) a'r System Rheoli Cyswllt a Theleffoni newydd (£0.3 miliwn) a oedd i'w rhoi ar waith yn ystod 2021/22. Mae oedi anochel a achoswyd gan gaffael a heriau'n ymwneud â phandemig COVID-19 wedi gweld dyddiadau gweithredu disgwylidig y systemau hyn yn cael eu gwrthio i 2023 gan arwain at arbediad untro yn y flwyddyn gyfredol. Mae yna hefyd arbedion o £0.5 miliwn ar draws nifer o benawdau amrywiol gan gynnwys ffioedd dehonglwyr, treuliau amrywiol, contractau gwasanaeth a gosodiadau a phenawdau gosodiadau.

- ix. Dadansoddi Ffonau a Gwaith Fforensig: Roedd tanwariant o £0.1 miliwn ar y cyllidebau hyn ar ddiwedd y flwyddyn ac roeddent yn cynnwys llai o wariant ar archwiliadau meddygol yn y ddalfa a gontractir yn allanol, contractau caffael gwaith fforensig digidol a chefnogaeth wyddonol fforensig.
- x. Taliadau Asiantaeth a Chydweithio: Roedd y gyllideb hon yn dangos tanwariant o £0.3 miliwn yn gyffredinol sy'n ymgorffori arbedion mewn taliadau i asiantaethau allanol gan gynnwys Unedau Cydweithredol Rhanbarthol a Chenedlaethol. Roedd y tâl i'r Gyd-uned Arfau Saethu yn is na'r disgwyl oherwydd swyddi gwag ar draws De Cymru a'r newidiadau a ddisgwylir mewn perthynas â system arfau newydd na chyflwynwyd erbyn diwedd y flwyddyn.
- xi. Grantiau: Roedd yr incwm hwn yn unol â'r gyllideb i raddau helaeth.
- xii. Incwm: Derbyniodd yr Heddlu £0.8 miliwn yn fwy o incwm nag a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn gysylltiedig yn bennaf ag adferiad cydgymorth yn gysylltiedig ag Uwchgynhadledd COP26 a G7. Ni wireddwyd y gostyngiadau mewn penawdau incwm a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r cyfyngiadau pandemig COVID-19 parhaus ac erbyn diwedd y flwyddyn roedd y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r pwysau a ragwelwyd.
- xiii. Ariannu Cyfalaf: Roedd gorwariant net o £0.1 miliwn yn erbyn costau ariannu cyfalaf ac ariannu refeniw uniongyrchol o ganlyniad i'r angen i gategoreiddio rhai pryniannau offer yn gywir fel gwariant cyfalaf yn unol ag arferion a pholisïau cyfrifyddu priodol.
- xiv. Ad-daliadau: Lle mae staff TG neu Ystadau yn ymwneud â dod ag ased cyfalaf i ddefnydd, mae arfer cyfrifo priodol yn ei gwneud yn ofynnol i'w costau gael eu codi yn erbyn yr ased hwnnw. I gydnabod hyn mae cyllideb ad-daliad incwm blynyddol o £0.2 miliwn yn cael ei neilltuo i'r diben hwn. Roedd natur y cynlluniau cyfalaf a gyflawnwyd yn 2021/22 yn golygu mai dim ond £0.1 miliwn a ddisgynnodd i'r diffiniad hwn gan arwain at gost ychwanegol o £0.1 miliwn yn disgyn ar gyllidebau refeniw.
- xv. Trosglwyddo i/o Gronfeydd Wrth Gefn: Arweiniodd sefyllfa ariannol gyffredinol yr Heddlu fel yr amlinellwyd yn y tabl uchod at danwariant cyffredinol o £1.5 miliwn i'w drosglwyddo fel cyfraniad i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y gyllideb yn tybio cyfraniad net o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £0.2 miliwn.

Mae cyllideb yr Heddlu hefyd yn cynnwys cyfrifon dal hunanfantoli mewn perthynas â Phartneriaeth Gan Bwyll, swyddi a ariennir gan gydweithredu a Secondiadau a oedd yn hunanfantoli ar y cyfan. Effeithiwyd ar weithgareddau Ailhyfforddi Gyrwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac arweiniodd y symud i gyflenwi ar-lein yn hytrach nag ar y safle at arbediad a oedd yn caniatáu cyfraniad o £0.3 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio gan y Comisiynydd i gefnogi mentrau diogelwch ffyrdd a chymunedol.

Bu'r Heddlu'n llym ac yn ddarbodus yn ariannol dros y flwyddyn er gwaethaf rhai galwadau gweithredol sylweddol a oedd yn golygu bod asesiad cywir o'r alldro terfynol yn heriol ond mae'r sefyllfa diwedd

blwyddyn yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach i ddelio â heriau ariannol yn y dyfodol. Wrth osod cyllideb 2022/23, rhagwelwyd tanwariant o tua £1.0 miliwn a chafodd y swm hwn ei gyllidebu i'w osod yn erbyn gofyniad cyllideb 2022/23 i gwrdd â phwysau costau untro ychwanegol sy'n gostwng yn y blynyddoedd i ddod.

Trafodwyd y sefyllfa alldro terfynol yn fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 24 Mai 2022. Yn y cyfarfod hwn, cymeradwyodd y Comisiynydd nifer o symudiadau wrth gefn:

- Creu Cronfa Wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu o £120,000 i liniaru'r brig mewn costau hyfforddi swyddogion Uplift a broffiliwyd ar gyfer 2022/23 – roedd hwn yn symudiad arfaethedig wrth gefn fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23;
- Creu Cronfa Wrth Gefn Gŵyl y Banc gwerth cyfanswm o £511,000 a fydd yn lliniaru costau patrwm gwyliau banc dros y ddwy flynedd nesaf – roedd hwn yn symudiad arfaethedig wrth gefn fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2022/23;
- Cynnydd o £404,000 yn y Gronfa Wrth Gefn Prosiectau Trawsnewidiol i ddarparu arian ysgogi ychwanegol i gefnogi prosiectau a newid sefydliadol;
- Creu Cronfa Addasu Cyllideb Wrth Gefn benodol o £75,000 i wrthbwyso gwall wrth gyfrifo sylfaen y dreth gyngor wrth osod y gyllideb;
- Cynnydd net o £281,000 yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Comisiynydd i gefnogi blaenoriaethau Tymor 3 Cynllun Heddlu a Throseddau a mentrau eraill;
- Trosglwyddo £213,000 i'r Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn i leihau gofynion benthyca yn y dyfodol ar gyfer seilwaith cyfalaf TG a fydd yn gwireddu arbedion refeniw blynyddol o ganlyniad i daliadau dyled is;
- Cynnydd net o £45,000 i'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a gostyngiad o £86,000 o'r Gronfa Refeniw Gan Bwyll;
- Dau aiddosbarthiad wrth gefn ar gyfer COVID-19 a Gwasanaethau Dioddefwyr.

Mae sefyllfa derfynol cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd yn dangos ffigur o £18.9 miliwn a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2022 o'i gymharu â £16.9 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hyn yn ymgorffori swm o £8.0 miliwn i gefnogi ymrwymadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol a chronfa wrth gefn gyffredinol o £4.0 miliwn. Mae hyn hefyd yn cynnwys balans o £1.6 miliwn a ddelir ar ran trydydd parti. Manylir ymhellach ar y cronfeydd wrth gefn yn Natganiad Cyfrifon y Grŵp/Comisiynydd.

## 6 Risgiau, Cyfleoedd a'r Rhagolygon Ariannol Tymor Canolig

Rheolir risgiau ar bob lefel o'r sefydliad trwy'r Strwythur Llywodraethu a defnyddir Cofrestr Risg Gorfforaethol i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau Cynllun Heddlu a Throseddau a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl.

Roedd y prif risgiau a oedd yn parhau'n 'fyw' ar ddiwedd 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

- Mae Cofnodi Troseddau a AHGTAEF yn peri pryder;
- Cydymffurfedd lechyd a Diogelwch – Hyfforddiant Gorfodol;
- Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfedd – risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli cofnodion yr heddlu yn aneffeithiol;



- Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu – risgiau sy'n gysylltiedig ag amseroedd gweithredu, oedi a threfniadau ar gyfer goruchwyllo ansawdd a chywirdeb data;
- Oedi wrth weithredu system TG ar gyfer gwiriadau cefndir ar gyfer arfau saethu awtomatig;
- Darpariaeth Fforensig Tocsicoleg Randox;
- Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac Asedau Gwybodaeth – anghysondeb setiau data;
- Diffyg cydymffurfio â gofynion statudol i gynnal Arolygiadau Iechyd a Diogelwch;
- Samplau Tocsicoleg Traffig Ffyrdd a gwaith achos Cyffuriau yn agosáu at gapasiti darparu Gwasanaeth Gwyddoniaeth Fforensig;
- Colli gallu patholeg fforensig y Swyddfa Gartref yng Nghymru;
- Risg yn ymwneud â diogelwch rhwydwaith TGCh ac anallu i ymuno â rhaglenni cenedlaethol fel y Gwasanaeth Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) Cenedlaethol a'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol;
- Risg o seiber-ymosodiad yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, faleiswedd ar systemau TGCh, meddalwedd wystlo, hacio, gwe-rwydo, ymosodiadau atal gwasanaeth wedi'u dosbarthu;
- Safle wrth gefn Canolfan Rheoli'r Heddlu;
- Pandemig COVID-19;
- Staff Datgelu nad ydynt yn gallu ymchwilio i Outlook am ddata personol ar gyfer Ceisiadau Testun am Wybodaeth;
- Oedi cyn i larymau seinio mewn dalfeydd gyrraedd ceisiadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu o dan Ddeddf Diogelu Data 2018;
- Adnoddau o fewn tîm prosiect y System Rheoli Cofnodion;
- Windows 10 – heb gefnogaeth o fis Mai 2021;
- Ansicrwydd parhaus mewn perthynas â chyllid yr heddlu gan gynnwys yr adolygiad i fformiwla ariannu'r heddlu;
- Ystadau – pryderon mewn perthynas â rheoli contractau, adnoddau, rheoli prosiectau, llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu pennu i Berchennog Risg sy'n gyfrifol am roi mesurau lliniaru a chamau gweithredu priodol ar waith. Mae rhagor o fanylion mewn perthynas â rheoli risg wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol.

O ran y Rhagolygon Ariannol Tymor Canolig, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers 2010 oherwydd gostyngiadau mewn cyllid gan y llywodraeth ganolog ynghyd â phwysau costau a newidiadau parhaus yn y galw am wasanaethau plismona.

Yn 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth, ar ôl wyth mlynedd o doriadau gwario a chodiadau trethi, fod cyni ar ben, ac addawodd y byddai'r llywodraeth, ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn ceisio hybu buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn cydnabod y pwysau ariannol yr oedd yr Heddlu yn ei wynebu. Cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod wedi "troi'r dudalen ar gynt" wrth iddi osod cynlluniau i godi gwariant ar draws pob adran ac amlinellu'r ymrwymiad i fynd i'r afael â throeddau a chadw pobol yn ddiogel gyda chynlluniau i recriwtio 20,000 o swyddogion erbyn 2023.

Ym mis Hydref 2021 cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ganlyniad ei Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a oedd yn nodi nifer o brif ffigurau ac ymrwymadau ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2024/25 ynghyd â diwedd i rewi cyflogau'r sector cyhoeddus yn 2022. Dyma'r setliad tair blynedd cyntaf ers nifer o flynyddoedd, ond er gwaethaf y ffaith ei fod yn cael ei groesawu, mae pryderon nad oes unrhyw eglurder yn sail i'r prif ffigurau ar gyfer blwyddyn dau a thri neu p'un a ydynt yn adlewyrchu gwir faint y pwysau ariannol sy'n golygu bod cynllunio tymor canolig yn parhau i fod yn heriol.

Mae effaith y diffyg eglurder parhaus ac ansicrwydd tymor hwy ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn gwneud cynllunio tymor byr a thymor canolig yn anodd iawn ac mae Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu cenedlaethol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ynghyd â'u gweithgorau priodol yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref i gyflwyno sylwadau lle bynnag y bo modd.

Roedd setliad 2022/23 yn cynnwys:

- Cynnydd o £550 miliwn yng nghyllid grant y Llywodraeth yn 2022/23, £100 miliwn pellach yn 2023/24 (cyfanswm o £650 miliwn) a £150 miliwn pellach yn 2024/25 (cyfanswm o £800 miliwn). Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn gwireddu cwblhau Rhaglen Uplift Swyddogion Heddlu'r Swyddfa Gartref erbyn mis Mawrth 2023 gyda £135 miliwn yn cael ei glustnodi a'i ddyrannu yn unol â chyfrannau fformiwla ariannu a'i dalu yn unol â chynnydd ar recriwtio;
- Hyd at £246 miliwn o gyllid ychwanegol o braesept y dreth gyngor, gan dybio bod pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gwneud y mwyaf o'u hyblygrwydd o £10 yn Lloegr, heb sbarduno'r angen am refferendwm;
- £100 miliwn o arbedion i'w cyflawni erbyn 2024/25 gyda £80 miliwn eisoes yn cael ei adlewyrchu yn y setliad. Amlinellodd y Llywodraeth hefyd ddisgwyliadau mewn perthynas â chynhyrchiant cynyddol i'w gwireddu drwy fuddsoddi mewn seilwaith technoleg a systemau rhyngweithredol, gyda'u Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona yn canolbwyntio o'r newydd ar wella mesur a chyflawni enillion cynhyrchiant.

Setliad grant 2022/23 ar gyfer Dyfed-Powys yw £60.7 miliwn, sef £3.2 miliwn (5.5%) yn uwch na 2021/22. Yn ogystal, cadarnhawyd parhad y grant penodol o £1.3 miliwn a gyflwynwyd yn 2019/20 i liniaru'n rhannol y pwysau sy'n deillio o newidiadau i gyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer pensiynau Swyddogion yr Heddlu, ynghyd â chyllid penodol ychwanegol i gefnogi'r gyfran derfynol o recriwtio swyddogion heddlu o dan Raglen Uplift y Swyddfa Gartref.

Mae'n ymddangos bod pob blwyddyn yn dod â phwysau a beichiau ariannol ychwanegol ac annisgwyl ac yn anffodus nid yw 2022/23 yn wahanol gyda chynnydd yng nghyfradd y cyflogwr ar gyfer Yswiriant Gwladol, o ganlyniad i'r Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol a phwysau sylweddol o ran chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau a oedd angen twf cyllideb o 8.7% gan ystyried cynlluniau gwariant dyddiol a chyfalaf.

Er mwyn lleihau'r baich hwn ar y trethdalwr lleol, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adlewyrchu cynllun arbedion/effeithlonrwydd heriol ac uchelgeisiol o £6.8 miliwn dros y pum mlynedd nesaf er y cydnabyddir bod arbedion ariannol yn profi'n anoddach i'w gwireddu. Cydnabyddir bod angen i hwn barhau i fod yn faes ffocws i alluogi'r Comisiynydd a'r Heddlu i osod sefyllfa ariannol gytbwys a chynaliadwy yn y tymor canolig ar gyfer refeniw a chyfalaf ac ar yr un pryd diogelu safon y gwasanaeth ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys tybiaethau o gynnydd o 5% o flwyddyn i flwyddyn yn y praesept ac mae'n ymgorffori ystod o ragdybiaethau ar bwysau costau a thwf mewn pwysau cyflog a chwyddiant, er bod hwn yn faes o bwysau difrifol ac anwadalrwydd oherwydd amodau'r farchnad ehangach. Mae costau cyfleustodau yn faes sy'n peri pryder penodol gydag arwyddion o gynnydd yn amrywio o 70% i 130%. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hefyd yn cynnwys cynnydd graddol yn y cyfraniad at gostau ariannu cyfalaf a benthyca i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf. Cynhwysir gwariant ychwanegol pellach ar nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd â'r costau ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i bensiynau'r heddlu.

Yn dilyn proses graffu a thrafod drylwyr ar y tybiaethau ariannol, risgiau sy'n parhau i fygwth y cymunedau a'r blaenoriaethau buddsoddi, cyflwynodd y Comisiynydd ei gynnig praesept ar gyfer 2022/23 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig hyd at 2026/27 i Banel yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar 28 Ionawr 2022.

Roedd y broses hon yn cynnwys nifer o seminarau a chyflwyniadau i'r Comisiynydd, staff y Comisiynydd, y Cydbwyllgor Archwilio, Aelodau Panel yr Heddlu a Throseddu a staff o Archwilio Cymru.

Cefnogwyd cynnig y Comisiynydd yn unfrydol gan Banel yr Heddlu a Throseddu, a gododd y praesept eiddo cyfartalog band D o £14.60 i £290.16, cynnydd o 5.3% gan godi cyfanswm o £66.8 miliwn ar y praesept. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o gyllid canolog a lleol o £127.4 miliwn sy'n cynrychioli cynnydd o 6.4% ar lefelau ariannu yn 2021/22, ac unwaith eto, Dyfed-Powys sydd â'r praesept treth gyngor isaf yng Nghymru.

Gosododd y Comisiynydd raglen gyfalaf o £91.0 miliwn ar gyfer 2021/22 i 2026/27 sy'n cynnwys buddsoddiad mewn Ystadau, Fflyd a seilwaith TGCh ar gyfer prosiectau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi'i flaenoriaethu tuag at flaenoriaethau strategol, gwariant anorfod, meysydd sy'n lleihau gwariant refeniw yn y dyfodol ac mae'n cydnabod yr angen i fod wedi paratoi'n ddigonol i wynebu gofynion newidiol Plismona'r 21ain ganrif.

Mae'r rhaglen gyfalaf yn gweld disbyddu cronfeydd cyfalaf wrth gefn ac yn cynnwys gofynion benthyca o £60.6 miliwn. Bydd llawer o'r benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalffa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn darparu datrysiad ar gyfer cyfleuster heddlu sy'n heneiddio yn Aberhonddu ac yn ariannu cyfleuster hyfforddi newydd ar gyfer y Gyd-uned Arfau Saethu. Er mwyn bodloni gofynion buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol a lliniaru'r ffaith bod cyllid grant cyfalaf yn dod i ben, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys cynyddu cyfraniadau refeniw i gyfalaf.

Bydd y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei hadolygu i adlewyrchu'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2021/22 a bydd yn cael ei hadolygu'n barhaus fel rhan o'r gwaith ailadroddus i ailasesu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Comisiynydd a'r Heddlu yn wynebu nifer o ymrwymïadau ariannol posibl anhysbys yn y dyfodol y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodiadau ar rwymedigaethau amodol a phensiynau gan gynnwys y canlynol:

- Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu – Enillion Cyfartalog Gyrfu wedi'u Hailbrisio
- Ymchwiliad Plismona Cudd
- Ceisiadau Lwfans Ar Alwad Uned Ymdrin â Ffynonellau Penodedig
- Cais yn ymwneud â Lwfansau Staff yr Heddlu sy'n ymwneud â chydredol

Mae ansicrwydd a chymhlethdodau parhaus ynghylch goblygiadau ariannol dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McCloud/Sargeant yn y dyfodol bod y warchodaeth drosiannol a gynhwysir yn niwygiad Rheoliadau Pensiwn y Farnwriaeth a Diffoddwyr Tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran. Yn dilyn hynny cyhoeddodd y llywodraeth ei bod yn derbyn bod y dyfarniad yn berthnasol i holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu. Mae gwaith cynnar yn awgrymu y gallai cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer Swyddogion Heddlu gynyddu i dros 50% yn 2024/25 ac nid oes sicrwydd y bydd y gost ychwanegol sylweddol hon yn cael ei thalu gan arian grant

Ailddechreuodd y Llywodraeth yr Adolygiad o Fformiwla Ariannu ym mis Mai 2021 gan sefydlu Grŵp Sector Uwch a Grŵp Cyfeirio Technegol i ystyried yr ystod eang o faterion a goblygiadau. Mae canlyniad hyn yn parhau i fod yn risg, gydag effaith yr adolygiad diwethaf heb ei weithredu o bosibl wedi arwain at £8 miliwn yn llai i Ddyfed-Powys.

Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, mae angen gofynion effeithlonrwydd parhaus dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gyda ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol, cymhlethdodau mewn perthynas â chostau pensiynau yn erbyn y dirwedd economaidd ehangach yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau'n heriol hyd y gellir rhagweld.

## 7 Sail Paratoi a Chyflwyno

Dyma'r degfed set o gyfrifon statudol a baratowyd o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân gynhyrchu eu Datganiad Cyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynhyrchu Cyfrifon y Grŵp, y mae cyfrifon y Comisiynydd wedi'u cynnwys ynddynt.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraeth leol baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol ag arferion priodol. Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi'i nodi fel un sy'n cynrychioli arferion priodol.

Mae'r canlynol yn esboniad o'r datganiadau sy'n dilyn, eu pwrpas a'r berthynas rhyngddynt:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon** – mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'i Brif Swyddog Cyllid;
- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghylch p'un a yw cyfrifon y Prif Gwnstabl a gyflwynwyd yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2021/22;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** – mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys yr holl dreuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail cronïad, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwir werth rhagamcanol y buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** – mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp ar ddyddiad y Fantolen. Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw gronfeydd wrth gefn i gyfrif amdanynt. Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r rhain. Asedau net (net i ddim) trwy gyfrwng dyledwr a chredydwr o fewn y grŵp ar gyfer cyfalaf gweithio i fodloni dyledwyr, rhestrau eiddo a chredydwyr tymor byr;
- **Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu** – datganiad sy'n dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Phensiynau'r Heddlu yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrif yn dangos y grant atodol sy'n ddyledus gan y Grŵp i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn. Wedyn, bydd y Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac i bob pwrpas yn gwarantu'r diffyg. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn dangos gwagedd ar ddiwedd y flwyddyn;
- **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** – mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n egluro ymhellach yr eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenwyr o'r prif ddatganiadau ariannol ac yn nodi'r Polisiâu Cyfrifo a ddefnyddir fel sail i baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer;
- Mae **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd** yn cael ei gyhoeddi ar wahân i'r Datganiad Cyfrifon hwn ac mae'n nodi manylion sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r Datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, er ei fod yn parhau i fod yn ddatganiad cyfun ar gyfer 2021/22. Nod hyn yw cynorthwyo tryloywder a dealltwriaeth i'r darllenydd, gan ddangos yn glir lle mae trefniadau'n gyson a lle maent yn gwahaniaethu rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

- **Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn** – nid yw'r datganiad hwn yn gymwys o ystyried mai cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r holl gronfeydd wrth gefn;
- **Datganiad Llif Arian** – nid yw'r datganiad hwn yn berthnasol gan fod cyfrifon banc yn cael eu dal gan y Comisiynydd ac yn cael eu gweithredu ar sail Grŵp.
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** – ni chyflwynir unrhyw Ddadansoddiad o Wariant a Chyllid ar wahân ar gyfer y Prif Gwnstabl gan y byddai'n rhoi darlun anghyflawn o'r datgeliadau gofynnol. Cyflwynir y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid Grŵp ar dudalen 28 o Ddatganiadau Ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ac mae'n dangos y dadansoddiad cyflawn yn ôl yr angen.

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Ariannol mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon.

### Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Ariannol;
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau; a
- chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad Cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.



---

**Prif Gwnstabl Dyfed-Powys**

**Dyddiad: 26 Gorffennaf 2023**

### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r arferion priodol a nodir yng *Nghod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi ei Ddatganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwysu'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth; a
- chydymffurfio â'r Cod awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol; a
- chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.



---

**Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl**

**Dyddiad: 26 Gorffennaf 2023**

## Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Dyfed-Powys

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y canlynol:

- Prif Gwnstabl Dyfed-Powys; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i, mae'r canlynol yn wir am y datganiadau ariannol:

- maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2022 ac o'u hincwm a'u gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Brif Gwnstabl Dyfed-Powys yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### **Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gefais yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

### **Adroddiad ar ofynion eraill**

#### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### **Materion eithriedig yr wyf yn adrodd arnynt**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi, os yw'r canlynol yn wir, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**



Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am drefniadau mewnol o'r fath â rheolaeth fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai y bernir ei bod yn amhriodol.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a'i bennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio cyfnodolion anarferol a thuedd wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfedd â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cydbwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol y busnes ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes

Rhannais hefyd deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll â phob aelod o'r tîm archwilio, ac arhosais yn wylidwrus i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys, a natur, amseriad a maint yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, o'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cynghorau Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau archwiliad cyfrifon Prif Gwnstabl Dyfed-Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed-Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

27 Gorffennaf 2023

Cyfrifoldeb Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yw cynnal y wefan a sicrhau ei huniondeb; nid yw'r gwaith a wnaed gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan.

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau troseddau yn ystod y flwyddyn.

2020/21 (Ailddatganwyd)					2021/22		
Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Nodiadau	Gwariant Gros £'000	Incwm Gros £'000	Gwariant Net £'000
68,426	0	68,426	Cyflogau Swyddogion yr Heddlu		69,674	0	69,674
2,774	0	2,774	Goramser Swyddogion yr Heddlu		3,264	0	3,264
16,370	0	16,370	Pensiynau Swyddogion yr Heddlu		20,678	0	20,678
32,360	0	32,360	Cyflogau Staff yr Heddlu		33,250	0	33,250
168	0	168	Goramser Staff yr Heddlu		185	0	185
3,971	0	3,971	Pensiynau Staff yr Heddlu		6,331	0	6,331
935	0	935	Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr		1,672	0	1,672
382	0	382	Costau Adeiladau		460	0	460
1,711	0	1,711	Costau Trafnidiaeth		1,989	0	1,989
10,001	0	10,001	Cyflenwadau a Gwasanaethau		11,733	0	11,733
2,916	0	2,916	Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract		3,358	0	3,358
4,091	0	4,091	Costau Ariannu Cyfalaf *		4,315	0	4,315
<b>144,105</b>	<b>0</b>	<b>144,105</b>	<b>Cyfanswm Cost Gwasanaethau</b>		<b>156,909</b>	<b>0</b>	<b>156,909</b>
32,725	0	32,725	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	<b>7</b>	36,375	0	36,375
0	(176,830)	(176,830)	Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)		0	(193,284)	(193,284)
<b>176,830</b>	<b>(176,830)</b>	<b>0</b>	<b>Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>		<b>193,284</b>	<b>(193,284)</b>	<b>0</b>
		196,680	(Enillion)/colledion actiwaraid ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn				(19,989)
		<b>(196,680)</b>	<b>Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)</b>				<b>19,989</b>
		<b>0</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				<b>0</b>

\* I gynrychioli defnydd y Prif Gwnstabl o asedau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'r Prif Gwnstabl yn derbyn taliadau sy'n cyfateb i'r ariannu cyfalaf a gafodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cydnabyddir y tâl hwn yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Mantolen**

31 Mawrth 2021			31 Mawrth 2022
£'000		Nodiadau	£'000
1,676,003	Dyledwyr tymor hir	17	1,701,477
<b>1,676,003</b>	<b>Asedau tymor hir</b>		<b>1,701,477</b>
574	Rhestrau eiddo		608
1,117	Dyledwyr tymor byr	9	1,145
(1,691)	Trosglwyddo o fewn grŵp		(1,753)
0	<b>Asedau cyfredol</b>		0
(14,693)	Credydwyr tymor byr	10	(15,832)
14,693	Trosglwyddo o fewn grŵp		15,832
0	<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>		0
(1,676,003)	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	17	(1,701,477)
<b>(1,676,003)</b>	<b>Rhwymedigaethau tymor hir</b>		<b>(1,701,477)</b>
0	<b>Asedau/(rhwymedigaethau) net</b>		0

## Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Prif Gwnstabl 2020/21		Cyfrif Cronfa	Prif Gwnstabl 2021/22	
£'000	£'000		£'000	£'000
		Cyfraniadau derbyniadwy		
(13,919)		Cyfraniadau cyflogwr	(14,243)	
(570)		Incwm Arall (Cyfraniadau salwch cyflogwyr)	(336)	
(6,006)		Cyfraniadau swyddogion	(6,141)	
	<b>(20,495)</b>	<b>Cyfraniadau derbyniadwy</b>		<b>(20,720)</b>
	<b>(661)</b>	<b>Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill</b>		<b>(560)</b>
		Buddion sy'n daladwy		
29,182		Pensiynau	30,030	
7,277		Cyfnewidiadau a buddion ymddeol ar ffurf cyfandaliadau	7,707	
	<b>36,459</b>	<b>Buddion sy'n daladwy</b>		<b>37,737</b>
		Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael		
0		Trosglwyddiadau allan i gronfeydd pensiwn eraill	0	
7		Ad-daliadau cyfraniadau	22	
491		Taliadau treth Cynllun yn Talu	169	
	<b>498</b>	<b>Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael</b>		<b>191</b>
	<b>15,801</b>	<b>Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn</b>		<b>16,648</b>
(15,801)		Trosglwyddo o fewn grŵp	(16,648)	
	<b>(15,801)</b>	<b>Cyfanswm y trosglwyddiadau o fewn grŵp</b>		<b>(16,648)</b>
	<b>0</b>	<b>Cyfanswm</b>		<b>0</b>

Prif Gwnstabl 2020/21		Datganiad Asedau Net	Prif Gwnstabl 2021/22	
£'000	£'000		£'000	£'000
		Asedau Cyfredol		
	0	Dyledwr – balansau net sy'n ddyledus gan gronfa'r Heddlu		544
	<b>0</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>		<b>544</b>
		Rhwymedigaethau cyfredol		
	0	Credydwyr – buddion sy'n daladwy i swyddogion sy'n ymddeol ddiwedd mis Mawrth a dalwyd ym mis Ebrill		(544)
	<b>0</b>	<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(544)</b>
	<b>0</b>	<b>Asedau Net</b>		<b>0</b>

## **Nodiadau i Gyfrifon Cronfa Bensiwn yr Heddlu**

- Mae'r polisiâu cyfrifyddu a ddilynwyd, a'r tybiaethau a wnaed ynghylch Cyfrif Pensiwnau'r Heddlu, yn unol â'r rhai a nodir yn Nodyn 1 – Polisiâu Cyfrifo;
- Gweinyddir Cynllun Pensiwn yr Heddlu gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth;
- Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Mae'r taliadau i mewn i'r Gronfa Bensiwn ac allan ohoni yn cael eu mantoli i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol o Gronfa Gyffredinol yr Heddlu, sydd yn ei dro yn cael ei ad-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (Grant Atodol). Derbynnir y grant hwn gan y Comisiynydd a'i drosglwyddo i'r Prif Gwnstabl ar ffurf trosglwyddiad o fewn grŵp; a
- Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, cyflwynir y rhain ar y Fantolen o dan 'Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill', gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 17 – Cynlluniau Pensiwn â Buddion Diffiniedig.

## **Nodiadau i'r Cyfrifon**

### **1. Polisiâu cyfrifyddu**

#### **Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022. Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arfer hwn yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu drwy ailbrisiu rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

#### **Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwall perthnasol. Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu oni bai bod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu lle mae'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar y sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol. Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Mae gwallau sylweddol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

#### **Croniadau Incwm a Gwariant**

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – lle mae bwloch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir, cânt eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Lle mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, mae dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Lle mae'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

### **Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### **Eitemau Eithriadol**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl.

### **Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

### **Offerynnau Ariannol**

#### Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar werth teg a chânt eu cario yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio.

#### Asedau Ariannol

Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol.

#### Trosi arian tramor

Lle bo'r Prif Gwnstabl wedi ymrwmo i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad y daeth y trafodiad i rym.

## Rhestrau eiddo

Cynhwysir rhestrau eiddo yn y fantolen yn ôl pris cost cyfredol. Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylid mesur Rhestrau eiddo yn ôl y gost isaf a'r gwerth gwiredadwy net. Nid yw'r polisi felly yn cydymffurfio ag IAS 2, ond nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.

## Trefniadau ar y cyd – Cyfrifyddu am gyfuno trefniadau ar y cyd

Lle mae'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda Chomisiynwyr a Phrif Gwnstablaiid eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn Cyd-drefniant IFRS 11 i bennu'r driniaeth gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol i bob trefniant o'r fath gael ei ddsbarthu naill ai fel Mentrau ar y Cyd neu Weithrediadau ar y Cyd. Mae holl drefniadau o'r fath gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl yn cael eu dosbarthu fel Gweithrediadau ar y Cyd lle mae gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl hawl i'w gyfran deg o Asedau a Rhwymedigaethau'r Cydweithrediad.

Ceir rhagor o fanylion o dan y nodyn Trefniadau Cydweithredol.

## Buddion i weithwyr

### Buddion Taladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr cyflogeion yw'r rhai sydd i'w setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion anariannol (e.e. ceir) i weithwyr presennol ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser i ffwrdd yn lle tâl a gwyliau hyblyg) a enillwyd gan weithwyr ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y mae'r gweithiwr yn cymryd y budd ynddo. Mae'r cronriad yn cael ei godi ar Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond yna'n cael ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi.

### Buddion Terfynu

Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol.

Lle mae buddion terfynu yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Grŵp i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn ac ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu pensiwn a rhoi debydau yn eu lle am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### Buddion Ôl Gyflogaeth

Mae gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu'r opsiwn o berthyn i un o ddau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu
- Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.



Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r Grŵp.

Mae'r cynllun Pensiwn hwn i Swyddogion yr Heddlu "heb ei ariannu" sy'n golygu na chaiff unrhyw asedau buddsoddi eu cronni i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, ac felly nid oes unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol wedi'i chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Llywodraeth Leol sydd i'w priodoli i'r Grŵp yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr ac ati a rhagamcaniadau o enillion ar gyfer gweithwyr presennol.

### Buddion yn ôl Disgresiwn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau buddion ymddeol yn ôl disgresiwn yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### **Prydlesi**

#### **Y Prif Gwnstabl fel Prydlesai (Prydlesi Gweithredu)**

Mae rhenti a delir o dan brydlesi gweithredu yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul y gwasanaethau sy'n cael budd o ddefnyddio eiddo, peiriannau neu offer ar brydles. Codir taliadau ar sail llinell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. lle mae cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

#### **Treth ar Werth (TAW)**

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'r Grŵp yn gallu ei hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Nid yw'r TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i gynnwys mewn incwm.

## **2. Addasiadau Cyfnod Blaenorol**

### **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i ailddatgan ar gyfer 2020/21 i adlewyrchu newidiadau cyflwyniadol mewn perthynas â'r tâl gan y Comisiynydd am ddefnyddio asedau anghyfredol. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar brif ddatganiadau eraill yn Natganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl.

Yn 2020/21, roedd taliadau'r Comisiynydd am ddefnyddio asedau anghyfredol yn cael eu dangos yn flaenorol yn erbyn y penawdau 'Adeiladau', 'Trafnidiaeth' a 'Cyflenwadau a Gwasanaethau', o ganlyniad roedd y ffigurau'n gamarweiniol. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr bellach wedi'i ailddatgan fel a ganlyn i ddangos y taliadau yn erbyn y pennawd 'Costau Ariannu Cyfalaf' a darperir troednodyn esboniadol:

Prif Gwnstabl	Incwm/Gwariant Net 2020/21		
	Incwm/Gwariant Net (fel y nodwyd yn flaenorol)	Incwm/Gwariant Net (fel y'i hailddatganwyd)	Cywiriad
	£'000	£'000	£'000
Cyflogau Swyddogion yr Heddlu	68,426	68,426	0
Goramser Swyddogion yr Heddlu	2,774	2,774	0
Pensiynau Swyddogion yr Heddlu	16,370	16,370	0
Cyflogau Staff yr Heddlu	32,360	32,360	0
Goramser Staff yr Heddlu	168	168	0
Pensiynau Staff yr Heddlu	3,971	3,971	0
Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr	935	935	0
Costau Adeiladau	1,413	382	(1,031)
Costau Trafnidiaeth	2,819	1,711	(1,108)
Cyflenwadau a Gwasanaethau	11,953	10,001	(1,952)
Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract	2,916	2,916	0
Costau Ariannu Cyfalaf	0	4,091	4,091
<b>Cyfanswm Cost Gwasanaethau</b>	<b>144,105</b>	<b>144,105</b>	<b>0</b>

\* I gynrychioli defnydd y Prif Gwnstabl o asedau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r Prif Gwnstabl yn derbyn taliadau sy'n cyfateb i'r ariannu cyfalaf a dynnir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Cydnabyddir y tâl hwn yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### Mantolen

Mae Mantolen y Prif Gwnstabl wedi'i hailddatgan ar gyfer 2020/21. Mae ffigur y credydwy'r tymor byr wedi'i addasu er mwyn rhoi cyfrif am aiddosbarthu rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Nid yw'r newid hwn yn cael unrhyw effaith ar Fantolen y Grŵp ac nid yw'n effeithio ar unrhyw un o'r datganiadau eraill yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r newid fel a ganlyn:

	Credydwy'r tymor byr ar 31 Mawrth 2021 (fel y nodwyd yn flaenorol)	Credydwy'r Tymor Byr ar 31 Mawrth 2021 (fel y'i hailddatganwyd)	Cywiriad
	£'000	£'000	£'000
Symiau masnach taladwy	(1,233)	(1,233)	0
Symiau taladwy eraill	(11,174)	(13,460)	(2,286)
<b>Cyfanswm Cost Gwasanaethau</b>	<b>(12,407)</b>	<b>(14,693)</b>	<b>(2,286)</b>

### 3. Safonau Cyfrifyddu wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod. Mae rhaglen wella flynyddol Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn disgrifio newidiadau i'r safonau canlynol.

- IFRS 1 (Mabwysiadu am y tro cyntaf) – mae'r diwygiad yn ymwneud â gweithrediadau tramor is-gwmnïau caffaeledig sy'n trosglwyddo i IFRS;
- IAS (Gwasanaethau Archwilio Mewnol) 37 (Contractau beichus) – yn egluro bwriad y safon;

- IFRS 16 (Prydlesi) – Mae'r dyddiad gweithredu ar gyfer y Safon hon wedi'i ohirio ymhellach i 1 Ebrill 2024;
- IAS 41 (Amaethyddiaeth) – un o nifer fach o IFRSau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig;
- IAS 16 (Eiddo, Offer a Chyfarpar) – Newidiadau i'r Elw cyn y Defnydd a Fwriedir.

Rhagwelir na fydd y newidiadau uchod yn cael unrhyw effaith ar y Datganiadau Ariannol cyfredol. Wrth lunio'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022/23, bydd effaith y newidiadau yn cael eu hailasesu ac os bydd angen, bydd y ffigurau cymharol yn cael eu hailddatgan.

#### **4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu**

Mae lefel uchel o ansicrwydd yn parhau ynghylch lefelau ariannu'r Prif Gwnstabl yn y dyfodol. Nododd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd yn 2021 y bydd cyllid yr heddlu yn codi £100 miliwn yn 2023/24 a £150 miliwn yn 2024/25. Rhagwelir y bydd pwysau costau sylweddol yn lleol yn ystod y ddwy flynedd ariannol hyn o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog, pwysau chwyddiant, ariannu cyfalaf a phwysau costau cynyddu swyddogion gyda'r Swyddfa Gartref yn nodi y bydd angen i'r Heddlu gynnal niferoedd swyddogion tan o leiaf 2026. Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn gwneud gwaith i ddiweddarau'r fformiwla ariannu a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau ymhlith cyrff plismona yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu yn y broses o gael ei ailbricio a disgwylir y bydd unrhyw newid yn y gyfradd cyfraniadau yn cael ei gymhwyso o 2024/25. Byddai hyn yn cynnwys effaith rhwymedi McCloud / Sargeant yn ogystal â newidiadau demograffig neu newidiadau eraill. Bydd y materion hyn yn cymryd peth amser i grisialu o ran effaith leol a hefyd o fewn y dirwedd economaidd ehangach. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn wedi'i ddiffinio'n ddigonol eto i roi syniad i'r Prif Gwnstabl p'un a allai amharu ar asedau, o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau, neu'r angen i leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir.

#### **5. Tybiaethau a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar dybiaethau a wnaed gan y Prif Gwnstabl am y dyfodol neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2022 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os bydd canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i dybiaethau
Atebolrwydd pensiynau	Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymdeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiwn. Cyflogir cwmni o actiwariad ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w cymhwyso.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth pensiwn net. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y dyfarniad cyflog ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd yn yr atebolrwydd pensiwn o £1,628 miliwn.

## 6. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon Drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 26 Gorffennaf 2023.

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys ynghyd â Phrif Gwnstabiadaid eraill wedi cael hawliadau wedi'u cyflwyno yn eu herbyn mewn perthynas â "Lwfans Ar Alwad" o dan Reoliad 34 Atodiad U Rheoliadau'r Heddlu 2003.

Ar 10 Hydref 2022 cyflwynodd yr Uchel Lys Cyfiawnder ddyfarniad yn achos KSO ac eraill v Comisiynydd y Metropolis (2019) o blaid yr Hawlwyr. Mae Heddluoedd ar hyn o bryd yn ystyried y dyfarniad a'r canllawiau a gyhoeddwyd oddi mewn gyda'r bwriad o ffurfio proses deg a rhesymol o dystiolaethu a meintioli hawliadau.

Digwyddodd y dyfarniad ar ôl dyddiad y fantolen ond roedd yn ymwneud ag amod a oedd yn bodoli ar ddyddiad y fantolen. Er nad yw'r union gyfrifiad wedi'i gwblhau eto, darparwyd ar gyfer amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn Natganiad Cyfrifon Grŵp 2021/22.

## 7. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o ymwneud ag offerynnau ariannol a thrafodion tebyg yn ymwneud â llog.

2020/21 £'000		2021/22 £'000
32,725	Cost llog pensiynau ac adenillion disgwylidig ar asedau pensiwn	36,375
<b>32,725</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>36,375</b>

## 8. Offerynnau Ariannol

Mae Offerynnau Ariannol yn gcontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offerynnau ecwiti endid arall. Nid yw trafodion digyfnewid, megis y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

### Rhwymedigaethau Ariannol

Mae Rhwymedigaeth Ariannol yn ymrwymiad i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Prif Gwnstabl a gall fod ar ffurf rhwymedigaeth gytundebol i gyflenwi arian parod neu asedau ariannol neu rhwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol gydag endid arall a allai fod yn anffafriol i'r Prif Gwnstabl.

Asedau Ariannol

Mae Ased Ariannol yn hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Prif Gwnstabl ar ffurf arian parod neu offerynnau eraill neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall.

Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi ar draws y categorïau canlynol:

	Tymor hir		Presennol	
	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 (ailddatganwyd) £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Credydwy	0	0	(14,693)	(15,832)
<b>Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(14,693)</b>	<b>(15,832)</b>
Dyledwyr	0	0	1,117	1,145
<b>Cyfanswm yr Asedau Ariannol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,117</b>	<b>1,145</b>

Bydd trosglwyddiad o fewn grŵp yn digwydd o Gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd yn seiliedig ar y sefyllfa ased gyfredol net gan na all y Prif Gwnstabl ddal balansau arian parod.

Enillion a Cholledion

Nid oes unrhyw enillion a cholledion wedi'u cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol.

Gwerthoedd Teg

Mae rhwymedigaethau ariannol tymor hir y Prif Gwnstabl yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio.

Mae Cod Ymarfer 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Werthoedd Teg yr asedau a'r rhwymedigaethau hyn gael eu datgelu at ddibenion cymharu. Diffinnir Gwerth Teg yn Safon Adrodd Ariannol 26 (FRS 26) fel y swm y gellid cyfnewid ased amdano, neu y gellid setlo rhwymedigaeth, rhwng partion gwybodus parod mewn trafodiad hyd braich. Gwerth Teg offeryn ariannol ar gydnabyddiaeth gychwynnol yw pris y trafodiad yn gyffredinol.

Ni fu unrhyw newid yn y dechneg brisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Swm sy'n cario 31 Mawrth 2021 (ailddatganwyd) £'000	Gwerth teg 31 Mawrth 2021 (ailddatganwyd) £'000		Swm sy'n cario 31 Mawrth 2022 £'000	Gwerth teg 31 Mawrth 2022 £'000
		Rhwymedigaethau Ariannol		
(14,693)	(14,693)	Credydwy	(15,832)	(15,832)
<b>(14,693)</b>	<b>(14,693)</b>	<b>Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol</b>	<b>(15,832)</b>	<b>(15,832)</b>
		Asedau Ariannol		
1,117	1,117	Dyledwyr	1,145	1,145
<b>1,117</b>	<b>1,117</b>	<b>Cyfanswm yr Asedau Ariannol</b>	<b>1,145</b>	<b>1,145</b>

Rhwymedigaethau Ariannol

Ar gyfer credydwy, mae'r gwerth cario wedi'i ddefnyddio fel brasamcan rhesymol o werth teg felly mae'r gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un â'r swm sy'n cario.

Asedau Ariannol

Ar gyfer dyledwyr, mae'r gwerth cario wedi'i ddefnyddio fel brasamcan rhesymol o werth teg felly mae'r gwerth teg ar ddyddiad y Fantolen yr un â'r swm sy'n cario.

**9. Dyledwyr Tymor Byr**

31 Mawrth 2021 £'000		31 Mawrth 2022 £'000
1,007	Rhagdaliadau	1,025
0	Symiau derbyniadwy drwy fasnach	0
110	Symiau derbyniadwy eraill	120
<b>1,117</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>1,145</b>

**10. Credydwyr Tymor Byr**

31 Mawrth 2021 (Ailddatganwyd) £'000		31 Mawrth 2022 £'000
1,233	Symiau taladwy drwy fasnach	3,220
13,460	Symiau taladwy eraill	12,612
<b>14,693</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>15,832</b>

**11. Trefniadau Cydweithredol**

Mae gan Heddluoedd Cymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd o dan gylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Bydd cydweithredu yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan yr angen i fodloni'r gofyniad plismona strategol a chan ganlyniadau'r Aseiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth de Cymru.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer pob Heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd y Comisiynydd yn ceisio gweithio ar y cyd â Chomisiynwyr a Heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Rheoleiddir cytundebau o'r fath gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig y Comisiynydd a'r Heddlu. Mae'r rhain i bob pwrpas yn cael eu hystyried yn 'Gyllidebau Cyfun' gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau ariannu yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, gyda chefnogaeth rhai grantiau penodol gan y llywodraeth. Caiff y cyllidebau cyfun eu cynnal i bob pwrpas gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar ran y pedwar Heddlu yng Nghymru.

Cyfanswm costau'r tîm cydweithredol yn 2021-22 oedd £135,000 (2020-21 £162,000) a chyfraniad Heddlu Dyfed-Powys at y costau hyn oedd £28,000 yn 2021-22 (2020-21 £40,000).

Isod cyflwynir Incwm a Gwariant prif weithgareddau'r unedau cydweithredol ynghyd â'r cyfraniadau cyllid a wnaed gan bob Heddlu sy'n cymryd rhan.

Wedi'i gynnwys mewn polisiau cyfrifyddu o dan drefniadau cydweithredol mae esboniad o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer gweithrediadau ar y cyd. Mae IFRS11, Cyfrifyddu ar gyfer Trefniadau ar y Cyd, yn ei gwneud yn ofynnol i incwm a gwariant fod yn destun triniaeth gyfrifo wahanol i'r hyn a gafwyd mewn gwirionedd. Yn unol â hynny, mae gwariant yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Prif Gwnstabl wedi cynyddu £1.015 miliwn ac incwm/grantiau yn Natganiad y Comisiynydd/Grŵp wedi cynyddu £1.135 miliwn; gostyngiad net mewn gwariant o £0.120 miliwn ar gyfer y Grŵp. Mae'r gostyngiad net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yng Nghyfrifon y Grŵp heb unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi aros ym mantolenni'r Heddluoedd ar sail perthnasedd.

Mae'r Datganiadau Gwariant ac Incwm ar gyfer 2021/22 ar gyfer y prif drefniadau cydweithredol fel a ganlyn:

Dosbarthiad Gwasanaeth	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth Plismona Cenedlaethol £'000	Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth Plismona Cenedlaethol £'000	Porth Gwrthderfysgaeth/Di ogelwch Penodol Plismona Cenedlaethol £'000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio £'000	Tasglu Rhanbarthol Cudd-wybodaeth £'000	Cyd-uned Arfau Saethu Gweithrediadau Arbenigol £'000	Cyfanswm £'000
Gwariant ar Gyflogau	6,115	534	3,895	7,508	1,909	13,255	33,216
Gwariant Nad ydyw'n Ymwneud â Chyflogau	1,222	34	312	1,209	527	2,195	5,499
<b>Gwariant Gros</b>	<b>7,337</b>	<b>568</b>	<b>4,207</b>	<b>8,717</b>	<b>2,436</b>	<b>15,450</b>	<b>38,715</b>
Incwm Grant Penodol	(7,303)	(568)	(4,207)	(5,000)	0	(1,354)	(18,432)
Incwm	(34)	0	0	(86)	(46)	(265)	(431)
<b>Cyfanswm Incwm a Grantiau</b>	<b>(7,337)</b>	<b>(568)</b>	<b>(4,207)</b>	<b>(5,086)</b>	<b>(46)</b>	<b>(1,619)</b>	<b>(18,863)</b>
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3,631</b>	<b>2,390</b>	<b>13,831</b>	<b>19,852</b>
Cyfraniadau'r Heddlu (Net)							
Dyfed-Powys	0	0	0	(739)	(486)	(4,149)	(5,374)
Gwent	0	0	0	(943)	(621)	(2,766)	(4,330)
Gogledd Cymru	0	0	0	0	0	0	0
De Cymru	0	0	0	(1,949)	(1,283)	(6,916)	(10,148)
<b>Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(3,631)</b>	<b>(2,390)</b>	<b>(13,831)</b>	<b>(19,852)</b>



Mae cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm ar gyfer 2021/22 fel a ganlyn:

Dosbarthiad Gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Porth Gwrthderfysgaeth/Diogelwch Penodol  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol  Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Tasglu Rhanbarthol  Cudd-wybodaeth (Cyfraniad Ariannol Cytunedig - darpariaeth leol) £'000	Cyd-uned Arfau Saethu  Gweithrediadau Arbenigol (Cyfraniad Ariannol Cytunedig – darpariaeth leol) £'000	Cyfanswm £'000
Dyfed-Powys	1,210	94	402	1,848	495	4,635	<b>8,684</b>
Gwent	1,385	107	461	2,114	633	3,090	<b>7,790</b>
Gogledd Cymru	1,628	126	2,308	0	0	0	<b>4,062</b>
De Cymru	3,114	241	1,036	4,755	1,308	7,725	<b>18,179</b>
<b>Gwariant Gros</b>	<b>7,337</b>	<b>568</b>	<b>4,207</b>	<b>8,717</b>	<b>2,436</b>	<b>15,450</b>	<b>38,715</b>
Dyfed-Powys	(1,210)	(94)	(402)	(1,078)	(9)	(486)	<b>(3,279)</b>
Gwent	(1,385)	(107)	(461)	(1,234)	(12)	(324)	<b>(3,523)</b>
Gogledd Cymru	(1,628)	(126)	(2,308)	0	0	0	<b>(4,062)</b>
De Cymru	(3,114)	(241)	(1,036)	(2,774)	(25)	(809)	<b>(7,999)</b>
<b>Cyfanswm Incwm a Grantiau</b>	<b>(7,337)</b>	<b>(568)</b>	<b>(4,207)</b>	<b>(5,086)</b>	<b>(46)</b>	<b>(1,619)</b>	<b>(18,863)</b>

Roedd y Datganiadau Gwariant ac Incwm ar gyfer 2020/21 ar gyfer y prif drefniadau cydweithio fel a ganlyn:

Dosbarthiad Gwasanaeth	Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth Plismona Cenedlaethol £'000	Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth Plismona Cenedlaethol £'000	Porth Gwrthderfysgaeth/Diogelwch Penodol Plismona Cenedlaethol £'000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio £'000	Tasglu Rhanbarthol Cudd-wybodaeth £'000	Cyd-uned Arfau Saethu Gweithrediadau Arbenigol £'000	Cyfanswm £'000
Gwariant Car Gyflogau	5,814	527	4,111	6,292	1,627	12,375	30,746
Gwariant Nad ydyw'n Ymwneud â Chyflogau	870	12	263	1,407	350	1,801	4,703
<b>Gwariant Gros</b>	<b>6,684</b>	<b>539</b>	<b>4,374</b>	<b>7,699</b>	<b>1,977</b>	<b>14,176</b>	<b>35,449</b>
Incwm Grant Penodol	(6,674)	(539)	(4,371)	(4,532)	0	(1,234)	(17,350)
Incwm	(10)	0	(3)	(125)	(12)	(76)	(226)
<b>Cyfanswm Incwm a Grantiau</b>	<b>(6,684)</b>	<b>(539)</b>	<b>(4,374)</b>	<b>(4,657)</b>	<b>(12)</b>	<b>(1,310)</b>	<b>(17,576)</b>
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg i'w ariannu o Gyfraniadau'r Heddlu</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3,042</b>	<b>1,965</b>	<b>12,866</b>	<b>17,873</b>
Cyfraniadau'r Heddlu (Net)							
Dyfed-Powys	0	0	0	(619)	(400)	(3,860)	(4,879)
Gwent	0	0	0	(790)	(510)	(2,573)	(3,873)
Gogledd Cymru	0	0	0	0	0	0	0
De Cymru	0	0	0	(1,633)	(1,055)	(6,433)	(9,121)
<b>Cyfanswm Cyfraniadau'r Heddlu</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(3,042)</b>	<b>(1,965)</b>	<b>(12,866)</b>	<b>(17,873)</b>

Roedd cyfraniad pob Heddlu tuag at Wariant ac Incwm ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

Dosbarthiad ad Gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni	Uned Cudd- wybodaeth Gwrthderfysgaeth  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Porth Gwrthderfysgaeth/Diog elwch Penodol  Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Uned Troseddau Cyfundrefn ol Ranbarthol  Cudd- wybodaeth / Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Tasglu Rhanbarthol  Cudd- wybodaeth (Cyfraniad Ariannol Cytunedig – darpariaeth leol) £'000	Cyd-uned Arfau Saethu  Gweithrediau Arbenigol (Cyfraniad Ariannol Cytunedig – darpariaeth leol) £'000	Cyfanswm £'000
Dyfed-Powys	1,102	89	413	1,631	402	4,253	<b>7,890</b>
Gwent	1,260	102	472	1,864	513	2,835	<b>7,046</b>
Gogledd Cymru	1,483	119	2,424	0	0	0	<b>4,026</b>
De Cymru	2,839	229	1,065	4,204	1,062	7,088	<b>16,487</b>
<b>Gwariant Gros</b>	<b>6,684</b>	<b>539</b>	<b>4,374</b>	<b>7,699</b>	<b>1,977</b>	<b>14,176</b>	<b>35,449</b>
Dyfed-Powys	(1,102)	(89)	(413)	(986)	(2)	(393)	<b>(2,985)</b>
Gwent	(1,260)	(101)	(472)	(1,128)	(3)	(262)	<b>(3,226)</b>
Gogledd Cymru	(1,483)	(120)	(2,424)	0	0	0	<b>(4,027)</b>
De Cymru	(2,839)	(229)	(1,065)	(2,543)	(7)	(655)	<b>(7,338)</b>
<b>Cyfanswm Incwm a Grantiau</b>	<b>(6,684)</b>	<b>(539)</b>	<b>(4,374)</b>	<b>(4,657)</b>	<b>(12)</b>	<b>(1,310)</b>	<b>(17,576)</b>

## 12. Cydnabyddiaeth ariannol swyddogion

Gweithwyr uwch – Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i uwch weithwyr y Prif Gwnstabl yn 2021/22 fel a ganlyn:

	Blwydd yn	O	I	Cyflwg cyfwerth ag amser llawn ar 31.03.22 neu'r dyddiad gorffen £	Cyflwg gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - ceir ar brydles (Nodyn 1) £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - adleoli a rhent £	Talu yn lle Rhybudd / Taliad Ymadael £	Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn £	Cyfanswm y gydnabyddiaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Gwnstabl	2021/22	12/12/2021	31/03/2022	161,115	48,941	0	12,169	0	61,110	15,172	76,282
Prif Gwnstabl Dros Dro	2021/22	01/04/2021	11/12/2022	146,469	104,956	0	0	0	104,956	28,964	133,920
Dirprwy Brif Gwnstabl	2021/22	12/12/2021	31/03/2022	122,628	38,086	0	0	0	38,086	11,547	49,633
Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro	2021/22	01/04/2021	11/12/2022	122,628	85,378	0	0	0	85,378	26,467	111,845
Prif Gwnstabl Cynorthwyol	2021/22	12/12/2021	31/03/2022	119,220	36,215	0	0	0	36,215	11,227	47,442
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro	2021/22	01/04/2021	11/12/2022	105,600	73,523	0	0	0	73,523	19,760	93,283
Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Cydweithrediad Cymru Gyfan	2021/22	01/04/2021	29/01/2022	105,600	89,053	4,893	0	0	93,946	27,104	121,050
Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl	2021/22	01/04/2021	31/03/2022	94,482	94,482	0	0	0	94,482	16,818	111,300
<b>Cyfanswm 2021/22</b>					<b>570,634</b>	<b>4,893</b>	<b>12,169</b>	<b>0</b>	<b>587,696</b>	<b>157,059</b>	<b>744,755</b>

Nodiadau: Darperir cerbydau i'r Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, fodd bynnag nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau), sy'n datgan: "1) Mae'r adran hon yn gymwys pan sicrhau fod a) cerbyd brys ar gael i berson a gyflogir mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat y person a b) os yw'r telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael yn gwahardd ei ddefnydd preifat ac eithrio pan fo'r person ar alwad neu'n cymryd rhan mewn gwaith ar alwad neu'n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw'r person yn gwneud defnydd preifat ohono ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath, 2) Nid oes atebolrwydd i dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati ac atebolrwydd gweddilliol i godi tâl) mewn perthynas â'r budd."

Gweithwyr uwch – Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i uwch weithwyr y Prif Gwnstabl yn 2020/21 fel a ganlyn:

	Blwydd yn	O	I	Cyflog cywerth ag amser llawn ar 31.03.21 neu'r dyddiad gorffen £	Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - ceir ar brydles (Nodyn 1) £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - costau adleoli £	Talu yn lle Rhybudd / Taliad Ymadael £	Cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn £	Cyfanswm y gydnabyddiaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Gwnstabl	2020/21	01/04/2020	24/03/2021	146,469	145,534	0	0	0	145,534	44,089	189,623
Prif Gwnstabl Dros Dro	2020/21	27/02/2021	31/03/2021	131,823	12,188	0	0	0	12,188	3,649	15,837
Dirprwy Brif Gwnstabl	2020/21	01/04/2020	26/02/2021	122,628	112,522	0	0	0	112,522	34,234	146,756
Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro (A)	2020/21	28/02/2021	31/03/2021	122,628	10,826	0	0	0	10,826	3,281	14,107
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (A)	2020/21	01/04/2020	03/05/2020	109,662	12,476	0	0	0	12,476	4,354	16,830
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (B)	2020/21	01/04/2020	20/06/2020	103,023	23,574	1,136	0	0	24,710	7,097	31,807
Prif Gwnstabl Cynorthwyol	2020/21	04/05/2020	27/02/2021	119,220	102,143	0	0	0	102,143	29,510	131,653
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (C)	2020/21	28/02/2021	31/03/2021	105,600	8,800	0	0	0	8,800	2,323	11,123
Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Cydweithrediad Cymru Gyfan	2020/21	03/01/2021	31/03/2021	105,600	26,433	3,862	0	0	30,295	8,008	38,303
Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl	2020/21	01/04/2020	31/03/2021	94,482	93,522	0	0	0	93,522	16,647	110,169
<b>Cyfanswm 2020/21</b>					<b>548,018</b>	<b>4,998</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>553,016</b>	<b>153,192</b>	<b>706,208</b>

Nodiadau: Darperir cerbydau i'r Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, fodd bynnag nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y ddau swyddog hyn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag Adran 248A o'r Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau), sy'n datgan: *"1) Mae'r adran hon yn gymwys pan sicrheir fod a) cerbyd brys ar gael i berson a gyflogir mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat y person a b) os yw'r telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael yn gwahardd ei ddefnydd preifat ac eithrio pan fo'r person ar alwad neu'n cymryd rhan mewn gwaith ar alwad neu'n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw'r person yn gwneud defnydd preifat ohono ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath, 2) Nid oes atebolrwydd i dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati ac atebolrwydd gweddilliol i godi tâl) mewn perthynas â'r budd."*

Gweithwyr eraill (ac eithrio uwch swyddogion – wedi'u rhestru uchod)

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Prif Gwnstabl sy'n derbyn mwy na £60,000 o gydnabyddiaeth am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

2020/21 Nifer y gweithwyr		2021/22 Nifer y gweithwyr
25	£60,000 - £64,999*	31
6	£65,000 - £69,999	4
6	£70,000 - £74,999	3
2	£75,000 - £79,999	8
2	£80,000 - £84,999	2
5	£85,000 - £89,999	4
1	£90,000 - £94,999	2
0	£95,000 - £99,999	1
0	£100,000-£104,999	0
0	£105,000-£109,999	0
0	£110,000-£114,999	0
0	£115,000-£119,999	0
0	£120,000-£124,999	0
0	£125,000-£129,999**	1

\*Ni chafodd unrhyw staff eraill a gyflogir gan y Comisiynydd gydnabyddiaeth o fwy na £60,000 yn 2021/22

\*\* Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys iawndal am golli swydd

Cyflogau dros £150,000

Mae un heddwes, Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl, yn derbyn cyflog blynyddol o £161,115 (2020/21: dim)

Cymhareb Cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn 2014 fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r wybodaeth ganlynol am y gymhareb gydnabyddiaeth.

- cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi
- canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl gyflogeion y corff a oedd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2022; a
- y gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b).

Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau.

Penodwyd y Prif Gwnstabl ganol y flwyddyn. Cydnabyddiaeth flynyddol y Prif Gwnstabl oedd £161,115 (2020/21: £149,842). Yn ogystal, derbyniodd y Prif Gwnstabl fudd mewn nwyddau neu wasanaethau o £12,169 yn ystod 2021/22 (2020/21: dim)

Canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl weithwyr y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2022 oedd £35,485 (2020/21: £35,019).

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chanolrif cydnabyddiaeth gweithwyr y Prif Gwnstabl oedd 4:86:1 (2020/21: 4:28:1)

Y Prif Gwnstabl Dros Dro/Dirprwy Brif Gwnstabl oedd y person a gafodd y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn. Y gydnabyddiaeth wirioneddol oedd £143,042 (2020/21: £134,330)

Canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl weithwyr y Prif Gwnstabl Dros Dro ar 31 Mawrth 2022 oedd £35,484 (2020/21: £35,019)

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth wirioneddol y Prif Gwnstabl Dros Dro/Dirprwy Brif Gwnstabl a chanolrif cydnabyddiaeth gweithwyr y Prif Gwnstabl oedd 4:03:1 (2020/21: 3:84:1)

### Aelodau

Mae'r Cynllun Llywodraethu yn nodi y dylai treuliau Aelodau gael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn 2021/22, cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd oedd £2,000 (2020/21: £2,000). Gan nad yw 50% o'r swm hwn yn sylweddol, nid yw'r costau wedi'u cyfrif yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl ond maent wedi'u cyfrif yn llawn yng nghyfrifon y Grŵp.

### **13. Costau archwilio allanol**

Yn 2021/22 aeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar y cyd i gostau o £82,000 mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio hawliadau grant ac arolygiadau statudol a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio a ddarperir gan archwilwyr allanol yr Heddlu (2020/21: £79,000).

### **14. Partïon cysylltiedig**

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu trafodion sylweddol gyda phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu i ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Prif Gwnstabl. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Prif Gwnstabl fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Prif Gwnstabl.

### Llywodraeth Ganolog

Mae gan lywodraeth ganolog ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan ei bod yn gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae hefyd yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu â phartïon eraill. Derbynnir nifer o grantiau gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt delerau ac amodau llym a nodir y rhain yn Nodyn 31 yng Nghyfrifon y Grŵp.

### Llywodraeth leol

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn derbyn incwm ar ffurf praeseptau o Gronfeydd Casglu'r Dreth Gyngor Awdurdodau Lleol. Darperir yr incwm a dderbyniwyd ar gyfer 2020/21 a 2021/22 ar y dudalen ganlynol:



2020/21 £'000		2021/22 £'000
(19,283)	Cyngor Sir Caerfyrddin	(20,509)
(14,931)	Cyngor Sir Penfro	(15,758)
(16,258)	Cyngor Sir Powys	(17,246)
(8,321)	Cyngor Sir Ceredigion	(8,793)
<b>(58,793)</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>(62,306)</b>

### Endidau a Reolir neu a Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan y Prif Gwnstabl

Mae Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn ymddiriedolwr ymddiriedolaeth “Dyfed-Powys Diogel”. Yn 2021/22 ni chynhaliodd y Prif Gwnstabl unrhyw drafodion ariannol gyda “Dyfed-Powys Diogel” (2020/21: dim). Mae rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth yn nodyn 39 o Ddatganiad Cyfrifon y Grŵp.

### Aelodau

Dangosir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i Aelodau yn 2021/22 yn nodyn 12.

Nid oes unrhyw un o'r aelodau, na phartion sy'n gysylltiedig â nhw, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol gyda'r Prif Gwnstabl yn 2021/22 nac yn 2020/21. Yn ystod 2020/21, bu un aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn Gyfarwyddwr Cyllid a TGCh Cymdeithas Tai Barcud. Yn ystod 2021/22, ni chynhaliodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys unrhyw drafodion ariannol gyda Chymdeithas Tai Barcud.

## 15. Prydlesi

### **Prif Gwnstabl fel Prydlesai**

#### Prydlesi Cyllid

Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw Brydlesi Ariannol.

#### Prydlesau Gweithredu

Mae Prif Gwnstabl Dyfed-Powys yn prydlesu eiddo oddi wrth berchnogion eiddo eraill lle bo'n briodol ac yn fforddiadwy, i ddarparu llety addas ar gyfer plismona gweithredol a chymorth. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys hefyd brydlesi gweithredu ar gyfer peiriannau ac offer sy'n cynnwys llungopiwyd.

Yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

31 Mawrth 2021 £'000		31 Mawrth 2022 £'000
140	Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	192
404	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	300
353	Hwyrach na phum mlynedd	314
<b>897</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>806</b>

Y gwariant a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydles hyn oedd:

2020/21 £'000		2021/22 £'000
157	Isafswm taliadau prydles	224
157	<b>Cyfanswm</b>	<b>224</b>

## 16. Buddion terfynu

Yn ystod 2021/22 roedd dau becyn ymadael neu ymddeoliadau hyblyg (2020/21: dim).

Band cost pecyn gadael	2020/21		2021/22	
	Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band FTE	Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) £'000	Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt ym mhob band FTE	Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) £'000
£0 - £20,000	0.0	0	1.0	1
£20,001 - £40,000	0.0	0	0.0	0
£40,001 - £60,000	0.0	0	0.0	0
£60,001 - £80,000	0.0	0	1.0	68
	<b>0.0</b>	<b>0</b>	<b>2.0</b>	<b>69</b>

## 17. Cynlluniau pensiwn buddion diffiniedig

### Cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Prif Gwnstabl ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu CARE (Career Average Revalued Earnings – Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbriso), sy'n golygu bod y Prif Gwnstabl a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi'i chyfrifo ar lefel a fwriedir i fantoli'r rhwymedigaethau pensiynau gydag asedau buddsoddi. Dylid nodi bod yr holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ond mae'r mwyafrif o'r staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Mae costau wedi'u dosrannu i adlewyrchu hyn.
- Cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu CARE (Career Average Revalued Earnings – Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbriso), felly nid oes gan y gronfa asedau buddsoddi. Ariennir buddion sy'n daladwy gan gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddion taladwy a chyfraniadau derbyniadwy gan grant atodol gan y Swyddfa Gartref trwy'r Comisiynydd.

## **Prisio Rhwymedigaethau'r Cynllun**

Fel rhan allweddol o'r ymarfer llunio Datganiad Cyfrifon blynyddol, cyflogir actiwariäid i gynnal asesiad o rwymedigaethau, asedau a chostau pensiwn i'w cynnwys yn y Fantolen a'r Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yn draddodiadol cynhaliwyd y rhain ar sail prisiad llawn bob tair blynedd gyda dull treigl ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd interim.

Yn ystod 2020/21 er mwyn rheoli'r ansicrwydd sy'n deillio o achos McCloud yn y ffordd orau, argymhellodd yr actiwariäid ddefnyddio darpariaethau cod CIPFA i ymestyn y prisiad treigl ymlaen i bedwaredd flwyddyn. Roedd hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd gan eraill ar draws y sector.

## **Trafodion sy'n Ymwneud â Buddion Ôl-gyflogaeth**

Mae cost buddion ymddeoliad yn cael ei chydabod yng nghost gwasanaethau a adroddir pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r costau hyn yn cael eu gwrthdroi o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal unrhyw gronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn ar y dudalen nesaf fel trosglwyddiad o fewn grŵp:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost gwasanaethau				
Cost gwasanaeth presennol	(8,698)	(10,954)	(29,224)	(36,313)
Cost gwasanaeth blaenorol (gan gynnwys McCloud)	0	0	0	0
Arall	(104)	(109)	0	0
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi				
Cost llog net	(1,722)	(1,784)	(31,003)	(34,591)
<b>Cyfanswm y Budd Ôl Gyflogaeth a Godwyd ar Warged neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau</b>	<b>(10,524)</b>	<b>(12,847)</b>	<b>(60,227)</b>	<b>(70,904)</b>
Budd Ôl Gyflogaeth Arall a Godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys				
Elw ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net)	32,527	8,173	0	0
(Ennill)/colli profiad	3,727	(597)	13,499	13,822
Enillion a cholledion ail-fesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig	0	1,984	0	38,616
Enillion a cholledion ail-fesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(36,723)	5,587	(209,710)	(47,596)
<b>Cyfanswm y Budd Ôl Gyflogaeth a Godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(10,993)</b>	<b>2,300</b>	<b>(256,438)</b>	<b>(66,062)</b>
<b>Costau Comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)</b>	<b>10,993</b>	<b>(2,300)</b>	<b>256,438</b>	<b>66,062</b>
<b>Cost net</b>	<b>0</b>		<b>0</b>	<b>0</b>
Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	0	0	0	0
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn				
Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r cynllun	0	0	0	0

Mae trosglwyddiad o fewn grŵp wedi'i gynnwys yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am reoli cronfeydd wrth gefn.

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae'r rhan fwyaf o'r costau cyflogaeth yn cael eu hysgwyddo gan y Prif Gwnstabl, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

Y rhwymedigaeth net sy'n deillio o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

2021/22	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000	Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(265,357)	(1,621,351)	(1,886,708)
Gwerth teg asedau'r cynllun	185,847	0	185,847
<b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig (Grŵp)</b>	<b>(79,510)</b>	<b>(1,621,351)</b>	<b>(1,700,861)</b>
Swm i'w briodoli i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	(616)	0	(616)
<b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig</b>	<b>(80,126)</b>	<b>(1,621,351)</b>	<b>(1,701,477)</b>

2020/21	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000	Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(257,304)	(1,589,193)	(1,846,497)
Gwerth teg asedau'r cynllun	170,475	0	170,475
<b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig (Grŵp)</b>	<b>(86,829)</b>	<b>(1,589,193)</b>	<b>(1,676,022)</b>
Swm i'w briodoli i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	19	0	19
<b>Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig</b>	<b>(86,810)</b>	<b>(1,589,193)</b>	<b>(1,676,003)</b>

Cysoni'r symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
<b>Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun</b>	<b>131,637</b>	<b>170,475</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
Incwm llog	3,066	3,786	0	0
Enillion / (colled) ailfesur – Yr elw ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net	32,527	8,505	0	0
Cyfraniadau gan y cyflogwr	4,642	4,920	30,242	33,904
Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun	1,697	1,787	6,005	6,141
Buddion a dalwyd	(2,990)	(3,517)	(36,247)	(40,045)
Arall (os yn berthnasol)	(104)	(109)	0	0
<b>Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun</b>	<b>170,475</b>	<b>185,847</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

## Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig):

	Rhwymedigaethau wedi'u Hariannu: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaethau heb eu Hariannu: Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
<b>Balans Agoriadol ar 1 Ebrill</b>	<b>(211,858)</b>	<b>(257,304)</b>	<b>(1,362,997)</b>	<b>(1,589,193)</b>
Cost gwasanaeth presennol	(8,866)	(11,399)	(29,224)	(36,313)
Cost llog	(4,858)	(5,642)	(31,003)	(34,591)
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(1,697)	(1,787)	(6,005)	(6,141)
Enillion / (colledion) ailfesur				
Enillion / colledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig	0	2,065	0	13,822
Enillion / colledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(36,742)	5,814	(209,710)	38,616
Arall (os yn berthnasol)	3,727	(621)	13,499	(47,596)
Cost gwasanaeth blaenorol (gan gynnwys McCloud)	0	0	0	0
Colledion / enillion ar gwtogi (lle bo'n berthnasol)	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	2,990	3,517	36,247	40,045
<b>Balans cau ar 31 Mawrth</b>	<b>(257,304)</b>	<b>(265,357)</b>	<b>(1,589,193)</b>	<b>(1,621,351)</b>

Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

	2020/21 £'000	2021/22 £'000
<b>Gwerth teg asedau'r Cynllun</b>		
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,995	3,159
Offerynnau ecwiti	126,288	134,312
Bondiau	19,775	17,228
Eiddo	18,837	24,290
Symiau eraill	3,580	6,858
<b>Cyfanswm Asedau</b>	<b>170,475</b>	<b>185,847</b>

Sail ar gyfer amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau gan gynnwys cyfraddau marwolaethau a lefelau cyflog.

Amcangyfrifwyd rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chynllun pensiwn Swyddogion yr Heddlu gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwarïaid.

Y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

Marwolaethau a Thybiaethau Eraill	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22
Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol				
Dynion	23.1	23.0	26.4	26.2
Merched	25.0	24.9	28.5	28.4
Hirhoedledd yn 65 (60 ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr y dyfodol				
Dynion	24.7	24.4	28.6	28.5
Merched	27.2	27.1	30.7	30.6
Tybiaethau eraill				
Cyfradd chwyddiant	2.7%	3.2%	2.7%	3.2%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.2%	4.7%	4.1%	4.8%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.8%	3.3%	2.8%	3.3%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun	2.2%	2.8%	2.2%	2.8%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i dybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl i'r tybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac yn tybio, ar gyfer pob newid, bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r tybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng i ddynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn y polisiau cyfrifo ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Cynllun Heddlu Llywodraeth Leol 2021/22	Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun	
	Cynnydd £'000	Gostyngiad £'000
Hirhoedledd (cynnydd o 1 flwyddyn)	7,648	0
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	5,814	0
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%)	1,017	0
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.1%)	0	5,689

Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2021/22	Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun	
	Cynnydd £'000	Gostyngiad £'000
Hirhoedledd (cynnydd o 1 flwyddyn)	49,359	0
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	35,360	0
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%)	7,061	0
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.1%)	0	34,565

### Cynllun Heddlu Llywodraeth Leol – Effaith ar Lif Arian Parod

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae'r Grŵp wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y Prisiad Actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2019 a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr blaenorol a chyfredol isod.

Blwyddyn	Cyfradd cyflogwr
2021/22	17.8%
2022/23	17.8%

Bydd y gyfradd gyfrannu yn cael ei hailasesu fel rhan o'r Prisiad Actiwaraidd sy'n cael ei wneud yn ystod 2022/23 a bydd cyfraniadau newydd yn daladwy o 1 Ebrill 2023.

### Her Gyfreithiol Pensiwn yr Heddlu - Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (McCloud/Sargeant)

Ar hyn o bryd mae gan y Prif Gwnstabl, ynghyd â Phrif Gwnstablaid eraill a'r Swyddfa Gartref, nifer o hawliadau mewn perthynas â gwahaniaethu anghyfreithlon yn deillio o ddarpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Roedd yr hawliadau yn erbyn cynllun pensiwn yr Heddlu (achos Aarons) wedi'u cadw y tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant yn flaenorol, ond cynhaliwyd rheolaeth achos ym mis Hydref 2019, gyda'r Gorchymyn dilynol yn cynnwys datganiad interim bod hawl gan yr hawlwr i gael eu trin fel pe baent wedi cael amddiffyniad trosiannol llawn ac wedi aros yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill 2015. Er bod y datganiad interim yn berthnasol i hawlwr yn



unig, gwnaeth y Llywodraeth yn glir drwy Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol ar 25 Mawrth 2020 y byddai'r rhai nad ydynt yn hawlio yn cael eu trin yn yr un modd.

Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Trysorlys EF ymgynghoriad ynghylch trefniadau trosiannol ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu fel y'i nodwyd yn achosion McCloud/Sargeant. Cyflwynodd yr ymgynghoriad hwn ofyniad i aelodau fod yn aelodau o'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac ar neu ar ôl 1 Ebrill i fod yn gymwys ar gyfer rhwymedi.

Ar 4 Chwefror 2021, cyhoeddodd Trysorlys EF ei ymateb i'r ymgynghoriad a oedd yn cadarnhau'r trefniadau unioni a nodwyd yn yr ymgynghoriad, ac yn nodi y byddai aelodau'n cael dewis p'un a ydynt am gadw buddion o'u cynllun pensiwn etifeddol, neu eu cynllun newydd, yn ystod y cyfnod unioni (2015-2022). Bydd y dewis hwn yn cael ei ohirio i aelodau tan ymddeoliad. Gan na nododd canfyddiadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth gwreiddiol fod cyflwyno'r cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus newydd yn wahaniaethol (yn hytrach y darpariaethau trosiannol oedd felly), bydd y cynlluniau etifeddol yn cael eu dileu o fis Ebrill 2022 a'u disodli gan y cynlluniau pensiwn newydd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015. Mae deddfwriaeth wedi'i deddfu a gwnaed y newid hwn o fis Ebrill 2022.

### Effaith ar atebolrwydd pensiwn

Byddai caniatáu i bob aelod cymwys gronni buddion o'u cynllun etifeddol yn ystod y cyfnod unioni yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu. I'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, mae hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymunodd cyn 2012. Yn wreiddiol, amcangyfrifodd actiwariad y cynllun fod y cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn 5.4% neu £85.5 miliwn o gyfanswm rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu o £1.589 biliwn. Cydnabuwyd hyn yng nghyfrifon 2018/19 a 2019/20.

Mae'r ffigurau cyfrifyddu a baratowyd yn 2021 eisoes yn cynnwys lwfans ar gyfer McCloud sy'n cydfynd yn sylweddol â'r meini prawf cymhwysedd ac sy'n tybio bod aelodau gwarchoddedig yn cronni buddion yn eu cynlluniau etifeddol ar hyn o bryd. Yn 2020/21, nid oedd yr amcangyfrif wedi newid.

Ar gyfer ymarfer 2022, cyflawnwyd cyfrifiadau aelodaeth lawn, fodd bynnag, yn absenoldeb data aelodaeth unigol sy'n adlewyrchu rhwymedi McCloud (o ystyried nad yw'r cyfrifiadau wedi'u gwneud eto gan y timau gweinyddol) mae'r lwfans ar gyfer McCloud wedi'i asesu mewn modd tebyg i flynyddoedd blaenorol. Mae cyfrifiadau 2022 yn caniatáu i bob aelod gweithredol gronni buddion yn y cynllun cyfartaledd gyrfa diwygiedig o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu yn 2023 yn dibynnu ar i ba raddau y mae rhwymedi wedi'i roi ar waith.

Bydd effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun sy'n deillio o ddyfarniad McCloud/Sargeant ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr yn cael ei fesur yn y broses prisio pensiwn nesaf. Disgwylir adroddiad ar brisiad nesaf Pensiwn yr Heddlu yn 2023/24, a'r arwydd yw y bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau cyfraniadau yn 2024/25 er y gall yr amserlen hon newid.

Mae effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o McCloud/Sargeant yn cael ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl fel Rheolwr Cynllun gynnal cronfa bensiwn y telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwr iddi ac allan ohoni y gwneir taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i dalu cost pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn talu'r swm sydd ei angen i setlo'r diffyg i'r Comisiynydd ar ffurf grant atodol llywodraeth ganolog.

### Hawliadau lawndal

Mae hawlwr wedi cyflwyno ceisiadau am iawndal mewn perthynas â'r achos hwn. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi derbyn atebolrwydd am setlo'r hawliadau hyn ac o ganlyniad nid yw'r Prif Gwnstabl (ac o ganlyniad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau) bellach yn gwneud darpariaeth ar gyfer setliad (2020/21: £50,000)

### Effaith yr Amodau Economaidd ar Bensiynau Staff yr Heddlu

Bu anwadalrwydd sylweddol yn y marchnadoedd ariannol ers dechrau pandemig COVID-19. Er gwaethaf cyfnod o sefydlogrwydd cymharol, yn ddiweddar mae'r anwadalrwydd hwn wedi cynyddu eto gyda'r sefyllfa yn Wcráin. Mae hyn yn effeithio ar werthoedd asedau, a bydd unrhyw newidiadau mewn marchnadoedd yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau cyfrifyddu. Dros yr un cyfnod, mae anwadalrwydd wedi ymestyn i fondiau corfforaethol, ond yn y pen draw mae arenillion bondiau corfforaethol cyfraddau AA ar 31 Mawrth 2022 wedi setlo tua 2.7% – 2.8% y flwyddyn yn uwch nag ar ddechrau'r flwyddyn gyfrifo. Yn olaf, mae Mynegai Prisiau Manwerthu a awgrymir gan y farchnad wedi bod yn amrywiol yn ystod y flwyddyn, ac wedi cynyddu yn y pen draw.

Mae'r tybiaethau ariannol ar gyfer IAS19 a FRS101/102 yn dibynnu ar gynnyrch y farchnad ar y dyddiad cyfrifo. Mae'r enillion hynny'n amrywio rhwng cyflogwyr yn dibynnu ar hyd eu rhwymedigaethau pensiwn. At ddibenion cyfrifyddu, mae actiwarïaid yn asesu'r hyd ar ddyddiad prisiad actiwarïaid ffurfiol diweddaraf y Gronfa (neu ddyddiad derbyn i'r Gronfa os yw'n hwyrach). Yn gyffredinol, mae'r gyfradd ddisgownt yn seiliedig ar arenillion ar fondiau corfforaethol o 2.7% – 2.8% y flwyddyn ar 31 Mawrth.

Cyn 2020, yr arfer actiwarïaid oedd tynnu 1.1% o Fynegai Prisiau Manwerthu ymhlyg y farchnad i gyfrifo tybiaeth Mynegai Prisiau Defnyddwyr arfaethedig. Roedd y lwfans hwn yn rhannol er mwyn caniatáu ar gyfer "premiwm risg chwyddiant" (h.y. nodweddion cyflenwad a galw yn y farchnad giltiau mynegrifol) ac yn rhannol oherwydd bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar hyn o bryd yn fesur is o chwyddiant na'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ers hynny y bydd y Mynegai Prisiau Manwerthu yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 2030. Mae Mynegai Prisiau Defnyddwyr gyda Thai yn gyffredinol is na'r Mynegai Prisiau Manwerthu, sy'n golygu y bydd chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu yn is o 2030. Mae actiwarïaid y cynllun yn disgwyl i'r cyfartaledd hirdymor ar gyfer y Mynegiant Prisiau Defnyddwyr a Mynegai Prisiau Defnyddwyr a Thai fod yn debyg.

## **18. Rhwymedigaethau Amodol**

### Ymchwiliad Plismona Cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio ac adrodd ar weithrediadau cudd yr heddlu a gynhaliwyd gan Heddluoedd Cymru a Lloegr yng Nghymru a Lloegr ers 1968. Mae'r ymchwiliad yn archwilio'r cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud i fynd i'r afael â throseddau, sut y cafodd ei oruchwylio a'i reoleiddio a sut y caiff ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar yr unigolion dan sylw – yn swyddogion heddlu ac eraill a ddaeth i gysylltiad â nhw.

Mae rhwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ynghyd ag 11 o Heddluoedd eraill, cyflogir cyfreithwyr allanol i gynrychioli swyddog(ion) sy'n gwasanaethu. Mae cytundeb i Heddlu Dyfed-Powys dalu cyfran o 5% o'r costau paratoi generig yr eir iddynt gan y cwmni cyfreithiol ac mae'r holl gostau hyd yma wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon referniw.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ymchwiliad wedi symud ymlaen yn ddigon pell i amcangyfrif costau'r dyfodol yn ddibynadwy ac felly ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn Natganiadau Cyfrifyddu 2021/22.

Lwfansau Cydamserol

Ym mis Tachwedd 2019, derbyniodd y Prif Gwnstabl nifer o hawliadau gan staff yr heddlu mewn perthynas â hawliadau am oriau anghymdeithasol a lwfansau nos i'w talu ar yr un pryd â thâl goramser.

Mae staff yn cael eu cynrychioli gan UNSAIN yn y mater hwn ac ni ddaethpwyd i gytundeb ffurfiol ar fodolaeth hawl o'r fath. Nid oes unrhyw rwymedigaeth wedi'i sefydlu ac nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn Natganiadau Cyfrifyddu 2021/22.

**19. Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol****Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach**

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn crynhoi uchafswm amlygiad posibl y Prif Gwnstabl i risg credyd, yn seiliedig ar y profiad a gasglwyd dros y pum mlynedd ariannol diwethaf ar lefel diffygddalu dyledwyr masnach, wedi'i addasu ar gyfer amodau presennol y farchnad. Yn unol â gofynion y Cod Ymarfer, mae'r datgeliad isod yn cynnwys manylion dyledwyr sydd wedi codi o ganlyniad i weithgareddau masnachu yn unig. Mae balansau a thrafodion sy'n deillio o swyddogaethau statudol (h.y. taliadau treth ac ardrethi annomestig cenedlaethol) wedi'u heithrio o'r nodyn datgelu hwn, gan nad ydynt wedi codi o weithgareddau masnachu cytundebol.

Cyfrifir Darpariaeth Drwgddyledion ar Lefel Grŵp gan nad oes gan y Prif Gwnstabl ddarpariaethau. Felly er gwybodaeth yn unig y mae'r ffigurau hyn.

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
Dyledwyr Masnach Gros ar gyfer y Grŵp (£'000)	1,950	1,845
Darpariaeth Dyled Drwg fel canran o Dyledwyr Masnach y Grŵp	14.0%	4.8%
Amlygiad i risg credyd	267	278